YR YMOFYNYDD.

RHIF. 19.] GORPHENAF, 1860. [AIL GYFRES.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(Parhad o tudal. 56.)

GWASANAETH Y CYMRY YN NGWAREIDDIAD Y BYD.

NID allaf agor y bennod hon gyda mwy o briodolrwydd na thrwy gyfieithu ychydig o eiriau Emerson, yr athronydd Americanaidd:

"Gwaed henaf y ddaear yw y Celtig. Mae rhai cenedloedd yn fyrhoedlog neu ddarfodedig. Pa le mae y Groegiaid? Pa le mae yr Etruriaid? Pa le mae y Rhufeiniaid? Ond y Celtiaid neu y Sidoniaid ydynt yn hen deulu, heb un cof am eu dechreuad, ac mae eu diwedd yn debyg o fod ymhellach fyth yn y dyfodol; oblegid fod ynddynt ddyoddefiad yn gystal a chynnyrchiad. Hwynt-hwy a blanasant Ynys Prydain, ac a roddasant i'r moroedd a'r mynyddoedd enwau ag sydd yn emynau *(poems)* ynddynt eu hunain, ac a efelychant burleisiau anian. Cofnodir hwy yn barchus yn hanesion henaf Ewrop. Nid oedd ganddynt ddaliadaeth wriogaethol ormesol *(violent feudal tenure)*, ond meddiannai yr amaethydd ei dir. Yr oedd ganddynt egwyddor lythyrenol, seryddiaeth, addysg offeiriadol, a chrefydd ysplenydd. Mae ganddynt awen ddiogel ac amrywiol. Gwnaethant y lenyddiaeth boblogaidd oreu yn y canoloesoedd, yn nghaniadau Merddin, ac yn ffughanes hyfryd a thyner y Brenin Arthur."—*English Traits.*

Mae y sylwadau olaf yn perthyn i'r Cymry yn neillduol.

Pe gallasem gredu rhai honiadau, dechreuodd gwasanaeth y genedl yn foreu, gan y dywedir mai hwy a ddysgodd y ffordd i'r Rhufeiniaid wneyd melinau dwfr; ond er fod hyn yn ammheus, mae lle i gredu iddynt anrhegu eu goresgynwyr â rhai pethau buddiol. Enwir yn neillduol basgedi *(Bascaudæ Britannis*)*, cwccwll y Beirdd *(bardocucculo)*, ac amryw fathau o gerbydau olwynog. Y Gauliald oedd y cyntaf a ddyfeisient sebon, gwlanen, a gwagrau; ac oddiwrthynt hwy y benthyciwyd hwynt. Dichon fod gwahaniaeth barn ynghylch rhinweddau gwareiddiol diod frag; ond y llwythau Celtaidd a'i dyfeisiodd gyntaf; ac yr oedd cwrw Cymru mewn cymaint o barch ymysg mynachod Peterborough, fel y darfu iddynt ammodi rhoddi darn o dir am ddeg barilaid o gwrw Cymraeg yn flynyddol. Yr oedd y Cymry yn enwog fel helwyr; arferent, cyn eu goresgyniad gan y Rhufeiniaid, ddanfon cwn hela i'r Cyfandir; ac yn y ddegfed ganrif gwnaethant les mawr i'r Ynys trwy ddileu y bleiddiaid o'r wlad, nes nad oedd braidd un o honynt yn y tir. Enwyd rhai o'u gweithredoedd hwy yn y rhanau rhagflaenol, a gellid ychwanegu mângofion o'r un fath yma; ond dichon fod hyn yn ddigon; ac am hyny brysiwn yn y blaen.

Gwelsom eisoes fod honiadau yn cael eu gwneyd i Gildas gyfieithu cyfreithiau Dyfnwal Moelmud, wedi eu heangiad a'u cadarnhad hwynt gan Beli ei fab, o'r Frythoneg i'r Lladin; a dywedir ymhellach i'r Brenin Alfred nid yn unig gyfieithu cyfreithiau Dyfnwal a Beli o'r Lladin i'r Saesoneg, ond hefyd gyfraith brenines Brydeinig o'r enw Marsia o'r Frythoneg i'r un iaith.

*Gwel Martial, Lib. 14. Epig. 99.

Sieffrey o Fynwy yw awdwr yr honiadau hyn; ond nid oes un o honynt ag un gronyn o wirionedd, er fod rhith o sail i'r haeriad olaf. Nid oes un cyfeiriad arall at un cyfieithiad o waith Gildas; ac nid yw Alfred yn addef un dyled o'r fath; ac nid oes un argraff Gymreig ar ei ddeddfau ef; ond y mae yn cyfeirio at, ac yn defnyddio, cyfraith ragflaenorol a eilw efe *Mercena Lege*, yr hyn yn gyfieithedig ydyw, Cyfraith y Mersiaid, sef gwŷr y Mers, neu ganoldiroedd Lloegr. Teyrnas Saesonaidd oedd Mersia, a chyfraith Saesonaidd oedd y *Mercena Lege:* gan hyny, nid oes un sail hanesyddol i'r hanes dan sylw; personoliaeth o deyrnas Mersia oedd y gyfreithwraig grybwylledig; ac nid oes un prawf o lywodraethiad un frenines Gymreig erioed, na chynt nac yn ol llaw. Buasai yn blyfyn hardd yn nghap Cymro pe byddai yr haeriad yn wir; ond yn lle hyny, yr oedd amryw ddeddfroddwyr Seisonig wedi ymddangos yn gynnar; a darfu i Alffred ragflaenu Hywel Dda, os nad esiampl y Sais a gynhyrfodd y Cymro. Yn wir mae lle i Sais droi yr honiad yn ein herbyn; mae *caracter* Dyfnwal gan Sieffrey, mor debyg i *garacter* Alffred, fel ei hysgrifenwyd yn flaenorol gan William o Malmesbury, fel y cyfiawnheid y casgliad fod y blaenaf wedi ei dynu oddiwrth yr olaf; ac ni fyddai un afresymoldeb yn yr haeriad, pe dywedid mai enwogrwydd y deddfroddwr Seisnig a gymhellodd Hywel Dda i adolygu a gwellhau hen gyfreithiau Cymru. Nid ydym ni yn honi y fath beth, nac am honi hyny; ond ni fyddai y dywediad, pe ei gwneid, yn amddifad o debygolrwydd hanesyddol, tra ar y llaw arall y byddai y ffaith yn amlwg fod Cyfraith Hywel yn tra rhagori ar ddim a ymddangosodd ymysg y Saeson cydoesol.

Ond os yw hyn yn ammheus, mae dyledogrwydd Lloegr, Ewrop, ac yn wir Asia hefyd, i lenyddiaeth a thraddodiadau Cymru, yn ffaith addefedig gan brif ddysgawdwyr yr oes. Cyfeirir yn neillduol at y ddeuddegfed ganrif, pan y dihunodd Ewrop o drymgwsg a barhaodd agos i bum can mlynedd. Cyn y cyfnod hwn, yr oedd cestyll a llysoedd pendefigion yn ffurfiedig o goed, gydag amddiffyniadau o gloddiau pridd a ffosydd. Ond y pryd hyn, cyfodwyd caerau ardderchog, a thyrau, a muriau amgylchawg, lluniedig o feini nadd a cherfiadau hardd a chelfydd. Nid oedd eglwysi cyn yr unfed ganrif ar ddeg, ond ystafelloedd bychain a gwael, ffurfiedig o furiau isel, a pharwydydd o wiail plethedig, a thyllau cul yn lle ffenestri. Ond weithian, fel y dywed Carnhuanawc, gwelwn eglwysi cadeiriol mawrion yn cyfodi, y rhai ydynt y dydd heddyw yn rhyfeddodau o adeilwaith medrus a gorchestol, a'r sawl ynghyd a'r mynachlogydd, o'r un ddullweithiad, ag oeddynt yn offerynol i hyfforddi gwybodaeth gelfyddydol yn y wlad, mewn modd tra llesol, trwy annog gweithiadau coed, maen, a haiarn, at y cyfryw, cymysgiad a thoddiad delidau at fwrw clychau, a gwneuthuriad a lliwiad gwydr ffenestri. Mewn gair, coleddwyd holl gelfyddydau yr oes trwy y gweithredoedd hyn; gwareiddiwyd anianawd y bobl; a helaethwyd gwybodaeth i'r fath raddau anhawdd eu hamgyffred, er y mwynheir eu heffeithiau buddiol, yr awr hon, trwy holl gyfansawdd y gyfundraeth gymdeithasol.*

Cymerodd y cyffroad afael yn llenyddiaeth yr oes hefyd; ond yma cyffyrddid ag anhawsderau mawrion, gan nad oedd gan werinoedd Ewrop na defnyddiau meddyliol, nac ieithoedd addas i'w gosod ar lafar. Hyd yma, y Ladinaeg oedd iaith dysgedigion; yn hon yr ysgrifenid llyfrau, ac y gweinyddid cyfreithiau, ac, mewn canlyniad, esgeuluswyd yr ieithoedd cenedlaethol,

*Hanes Cymru, tu dal. 535.

fel nad oedd un o honynt yn addas i osod allan ond drychfeddyliau cyfyng ac anghyflawn. Ond yn awr, cyfododd ieithoedd gwerinol i sylw cyffredin; dechreuodd y Ffrengaeg, yr Yspaenaeg, a'r Saesoneg, yn ieithoedd llenyddol; ond hyd yma nid oedd ganddynt nemawr o ddrychfeddyliau, ac ond ychydig o wybodaethau cyffredinol. Yn y cyflwr hwn, daeth llenyddiaeth a thraddodiadau y genedl Gymreig i'w cynnorthwyo.

Ymgyfranai y Cymry yn y diwygiadau cyffredinol; ymroddai eu tywysogion i adolygu cyfreithiau, adgyweirio defodau gwladol, i gynnal eisteddfodau, ac i adeiladu cestyll, eglwysi, a mynachlogydd, ac ymorchestai y beirdd i goleddu iaith a llenyddiaeth y genedl. Ond yn hyn o beth, yr oeddent yn blaenori yn fawr ar eu cydoeswyr; oblegid tra yr oedd cenedloedd eraill yn amddifad o lafarieithoedd rheolaidd, ac yn ymdrafferthu i ffurfio ieithoedd newyddion, yr oedd gan y Cymry iaith goeth a chyflawn, wedi ei choleddu dros oesoedd lawer, a chyfundraeth ardderchog o farddoniaeth yr hon oedd wedi ymwreiddio yn eu plith er cyn cof. Yr oedd ganddynt gronfa helaeth o draddodiadau cenedlaethol; yr oedd gwroldeb eu hen freninoedd wedi cynyddu mewn gogoniant; ac yr oedd Arthur a'i gydoeswyr wedi eu gwisgo ag addurnau barddonol, ac wedi ymestyn o fod yn rhyfelwyr lleol i fod yn fath o haner duwiau, nes yw wedi myned yn ammheus gan rai dynion pa un a fu y fath berson hanesyddol a'r Brenin Arthur. Ond heb ryw gyfrwng, buasent oll yn gyfyngedig i Gymru, ac i'r iaith Gymraeg, ac yn hollol anadnabyddus i genedloedd eraill.

Ymddangosodd cyfrwng yn mherson Sieffrey o Fynwy, yr hwn, er ei holl feiau, a deilynga barch Ewrop yn gyffredinol am hyn o weithred; ac er fy mod wedi ei enwi yn anffafriol amryw o weithiau, mae yn dda genyf gael hyn o gyfle i wneyd cyfiawnder ag ef am y gwasanaeth hwn. Gadewir gwirionedd ei hanes i maes o'r golwg, gan nad yw ei waith ef yn awr yn meddu un awdurdod hanesyddol; nid oes neb yn credu ystori Brutus o Gaerdroia, ac nid oes nemawr yn breuddwydio am gael gwir hanes Arthur, yn yr "*Historia Britonum*," nac yn y cyfieithiad Cymraeg o honi, *Brut y Breninoedd*. Ymddibyna teilyngdod Sieffrey, neu Galfrai ab Arthur, fel ei gelwir weithiau, ar y ffaith iddo ef grynhoi corff o draddodiadau a ffugchwedlau addas i dderbyn addurniad barddonol, a fuasent heb hyny yn suddo i dir anghof; ac iddo eu cymhlethu mewn traethiad tueddol i ddylanwadu yn rhyfeddol ar deimladau a llenyddiaeth genedlaethol. Yr oedd yr "*Historia Britonum*," fel y dengys yr enw, yn Lladin; a chan fod yr iaith hono yn adnabyddus i holl ysgolion Ewrop, ffurfiodd gyfrwng i drosglwyddo y traddodiadau Cymreig i genedloedd dyeithr, ac i'w taenu dros yr holl Gyfandir. Daeth y llyfr i boblogrwydd uniongyrchol; cyfieithwyd ef i'r Ffrengaeg gan Wace, ac i'r Saesonaeg gan Layamon; a dygwyd ei gynnwysiad i adnabyddiaeth pobloedd eraill. Aeth Arthur, a chrefft y ford gron, yn destun cyffredin cyfansoddwyr y Cyfandir; cyrhaeddodd y chwedlau Brytanaidd i Germany a Scandinavia yn y gogledd, ac i Spaen ac Italy yn y deheu; treiddiasant hyd a lled Ffrainc, cyfieithwyd hwynt nid yn unig i ieithoedd Lloegr, Ffrainc, Yspaen, Italy, Germany, a Sweden, ond hefyd i iaith Groeg; ac y mae lle i ni gredu iddynt dreiddio hyd yn nod i Arabia. Ffynonell y cwbl oedd yr "*Historia Britonum*," yr hon oedd un o brif gonglfeini llenyddiaeth ffughanesiol y canoloesoedd; ac nid oes un "ystoria" o'r fath yma, i waered hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, nad yw yn dangos mwy neu lai o ddylanwad Sieffrey o Fynwy. Nid oedd ychwaith y dylanwad hwnw yn gyfyngedig i'r oesoedd

hyny, nac i'r ffurf hono o lenyddiaeth; ac nid oedd ychwaith heb ddylanwad pwysig ar feddyliau a moesau dynion. Dyweder a fyner yn erbyn y ffughanesion hyn, atebent i chwaeth a chyrhaeddiadau yr oes, a thueddent i feithrin teimladau uchel a gogoneddus a ddangosent eu hunain yn fynych mewn gweithredoedd cyfatebol. Rhaid ystyried hefyd ein bod yn ddyledus i ragflaeniaid y cyfansoddiadau hyn, am rai o gynnyrchion godidocaf y meddwl dynol. Gellir hebgor, fe allai, Wace, Layamon, a'r ffughanesion oll; ond rhaid cofio na fuasai genym, hebddynt hwy, nac "Orlando" y bardd Italaidd Ariosto, na "Don Quixote" Cervantes; a phwy a ddarllenodd yr olaf erioed a fuasai yn foddlawn ei hebgor? Gellid hebgor, fe allai, Gorboduc, Ferrex, Porrex, a phethau ereill o'r un tarddiad; ond pwy ymfoddlonai i fod heb weithiau penigamp Shakespeare—"King Lear," a "Cymbeline," y rhai ydynt eill dau yn seiliedig ar waith y gwr o Fynwy? Gadewch i ni, meddai ysgrifenydd yn y *Quarterly Review*, wrth sylwi ar y gweithiau yna, gofio gyda diolchgarwch am Sieffrey, i'r hwn y bu Shakespeare yn ddyledus am sylwedd gweithiau rhyfeddol, canys heb ei "*Historia Britonum*," ni fuasem yn ol pob tebygolrwydd byth yn eu cael. Peth bach yw gwreichionen ynddi ei hun, ond dichon gynneu "goleuni i'r holl genedloedd." Eto, nid yw y dylanwad hwn yn aros yma; ni ddilëwyd yr argraff dwfn a wnaeth y traddodiadau Cymreig; hwynt-hwy fuasent yn ddechreuad llenyddiaeth gwahanol deyrnasoedd y Cyfandir; ac yno, fel yma, mae y dylanwad yn parhau hyd y dydd heddyw. Cyfansoddodd Spenser y "Faery Queen" dan y cynhyrfiad grymus hwn; bwriadai Milton wneyd Arthur yn destun Pryddest (*Epic Poem*), fel y dyweda Price; profa y "Bridal of Triermain," un o'r cerddi goreu yn ein hoes ni, mor ddyfned oedd argraff y ffughanesion yma ar feddwl Syr Walter Scott; ac mae "King Arthur" Syr Bulwer Lytton, yn ddiweddarach eto, yn dangos fod y dylanwad yn parhau.

Lles arall a weinyddwyd gan y Cymry oedd cynnaliaeth eu hannibyniaeth am gymaint o ganrifau yn erbyn ymosodiadau Rhufeiniaid, Saeson, Daniaid, a Normaniaid. Er nad oedd un amcan mewn golwg yn eu hymdrechion gwladgarol a chlodfawr hwy, ond eu lles neillduol eu hunain, eto mewn ystyriaeth arall ymestynai y budd hwn tu hwnt i derfynau y Dywysogaeth i eithafion y Cyfandir, ac o'r oesoedd terfysglyd hyny hyd yr awr hon. Bu y gwroldeb hwn yn fuddiol mewn tri o ffyrdd gwahanol, sef,—

I. Fel cefnogaeth i bobloedd eraill yn yr un amgylchiadau.

II. Yn nghadwraeth yr Iaith Gymraeg.

III. Fel enghraifft o lesoldeb yr Ysgrythyrau mewn ieithoedd cartrefol.

Cynnygir ychydig, a dim ond ychydig, o sylwadau ar y gwahanol ystyriaethau hyn.

I. Hanes pobloedd mynyddig, yn eu rhyfeloedd cartrefol ac amddiffynol, a ffurfia y rhan odidocaf a blasusaf o hanes Ewrop, hen a diweddar, os nad o hanes y byd yn gyfangwbl. Mae pawb o honom yn adnabyddus â hanes Groeg, a gwroldeb Leonidas a'i dri chant o wroniaid, ac yn adgofio yn fynych, gyda theimladau o wresogrwydd, amddiffyniad clodfawr Bwlch Thermopylæ; ac mae yr hanes fyth oddiar hyny wedi cysuro a chalonogi pobloedd ereill i ymysgwyd ymaith ieuau gormesol, a sefyll allan yn wrol dros eu rhyddid, a'u breiniau, a gwlad eu tadau. Mae hanes y Siluriaid yn destun clodfawr yn ein hanes ninnau, ac yr un mor dueddol i fabwysiadu gwroldeb yn mynwesau eraill. Siaradwn yr un iaith ynghylch mynyddwyr Switzerland, ac y mae yn dda genym bob amser adgofio William Tell. Yn ein dyddiau

ni ein hunain, ymladdodd yr Hungariaid yn wrol o blaid gwlad eu tadau, gwlad glodfawr am ei Phrotestaniaeth gynt, ac a obeithir eu gweled eto yn rhydd. Mae yr hanesion hyn oll yn anwyl i garwyr dynoliaeth; calonogant yr Italiaid yr awr hon i adennill eu hannibyniaeth, a pharhant tra fo gorthrymder ar y ddaear i fod yn destunau mawl, yn adgofion melus, ac yn gynhyrfiadau grymus i ddymchwelyd trais ac enill rhyddid. Pe byddai fwy adnabyddus, enwid hanes y Cymry yn yr un gyfres; mae gwroldeb y Siluriaid yn cael ei adgofio eisoes; a dichon y bydd ymdrechion y genedl yn gyffredin yn cael eu henwi yn yr un cysylltiad.

II. Mae cadwedigaeth yr iaith Gymraeg yn fudd i ddynolryw. Ffurfia yr iaith Omeraeg gadwyn ogoneddus yn cysylltu yr oes bresennol â gwawr hanesyddiaeth; disgynodd o eithafion amser, ac y mae eto yn iaith fyw, yn cael ei siarad yn ei phurdeb, gan ddynion a hoffant iaith eu hendeidiau, ac sydd yn deilwng o feddiannu trysor mor werthfawr. Mae golwg fawr ar y Gymraeg gan ddysgedigion y Cyfandir; cedwir llyfrau Cymreig ar werth yn barhaus yn nghalon Germany; mae *catalogue* yn awr ger fy mron, a chyfres o lyfrau Cymraeg ar werth gan Brockhaus yn Leipzig; ac y mae traethodau dysgedig wedi eu hysgrifenu arni, gan Prichard yn Lloegr, Edwards yn Ffrainc, Villemarque yn Llydaw, Pictet yn Geneva, a chan Leo, Mone, a Zeuss yn Germany. Mae dynion dysgedig, megys Schulz a Ranke, yn ei pharchu ac yn ei dysgu; rhoddir lle anrhydeddus iddi yn ieithyddiaeth yr oes; ac y mae *Professor* Bopp, penieithydd y dyddiau presennol, yn dwyn y dystiolaeth ganlynol am dani. Tystiai yn fynych, meddai Syr Charles Salisbury, ei ryfeddod am yr anwybodaeth a'r diffyg ystyriaeth a ddangosir gan rithddysgawdwyr Lloegr ynghylch rhyfeddod y rhyfeddodau—yr iaith Gymraeg. Tra y mae y Sancrit wedi trengu fel iaith siaradol, tra y mae yr Hebraeg mewn effaith yn iaith farw, a'r Arabaeg yn gyfrwng siaradol cenedl o yspeilwyr,—wele saif bôst Cymru yn fyw—yn weithredol, ac yn lloni cannoedd o filoedd. Ychwanegai y Dwyreinydd mawr *(great Orientalist)* ei fod yn warth i un ieithydd fod yn anadnabyddus o'i galluoedd, er nad ymddangosai un Sais a gyfarfu ef erioed ei fod yn wybyddus fod y fath ryfeddod wrth ymyl ei ddrws.* Dywed yr Archddiacon Williams mai yr ieithoedd Celtig, y Wyddelig, a'r Gymrreg, yw sylfaen y Roeg a'r Lladinaeg; a barnai Dr. Meyer fod yr ieithoedd hyn yn henach na'r Sanscrit na'r Hebraeg; ond er y dichon fod gormodiaith yma, addefir ar bob llaw fod y Gymraeg o'r buddioldeb mwyaf i amlygu ac eglurhau tarddiad a thyfiad yr ieithoedd Ewropeaidd, ac i ddarganfod cyflwr a hanes foreuol dynolryw. Mae cadwedigaeth yr Omeraeg, gan hyny, yn fudd cyffredinol, ac yn ffaith anrhydeddus i genedl y Cymry.

*Llythyr yn y "*Remains of the Rev. Thomas Price,*" *Vol.* II., *p.* 355.

Dadguddiad gogoneddus Cristnogrwydd yw anfarwoldeb. Yr wyf yn dywedyd dadguddiad, nid am fod y bywyd dyfodol yn hollol anadnabyddus cyn Crist, ond am ei fod wedi ei ddadguddio ganddo ef yn y fath fodd, ac i ddyfod yn athrawiaeth newydd. Cyn Crist nid oedd anfarwoldeb ond dychymmyg neu obaith gwag. Ond y mae'r Iesu trwy ei addysg a'i adgyfodiad wedi ei wneuthur yn sicrwydd.

CHANNING.

RHESWM A CHREFYDD.—Rhif V.

(*Parhad o tudal.* 94.)

Efallai fy mod yn cael fy ystyried yn rhy *fanol* gan rai o ddarllenwyr yr Ymofynydd, yn fy ngwaith yn chwilio allan, ac yn esponio pob adnod ag y *tybygir* ei bod yn cyfeirio at Athrawiaeth y Drindod. Ond yr ydwyf am roddi pob chwareu teg i'r Athrawiaeth a'i chefnogwyr; a chan fy mod wedi cymeryd, wrth ddechreu, i brofi yn ol dehongliad Trindodiaid dysgedig eu hunain, nad oes *un adnod* yn yr Hen Destament yn cyfeirio, yn y mesur lleiaf, at yr Athrawiaeth honno, nid yw bossibl fod yn rhy fanwl ar y pwnc!

Oddiwrth yr hyn ag sydd gwedi bod dan ein sylw, nis gellir gochelyd y casgliad, "*Nad oes Trindod, na rhith o Drindod, yn yr Hen Destament.*"

Yn awr, ynte, awn yn mlaen yn bwyllog ac yn ddifrifol i chwilio gyda'r un manylrwydd, A oes rhyw *arwyddion* o *Drindod* yn y Testament Newydd?

Mae rhai o ddarllenwyr yr Ymofynydd, ag ydynt yn credu Athrawiaeth y Drindod, efallai, yn barod i gyfaddef—nad oeddynt yn dysgwyl y cawsid profion o'r athrawiaeth yn yr Hen Destament oherwydd ei bod yn *ddirgelwch* rhy *fawr* i'r oes Iuddewig i amgyffred; ond mai gwaith neillduol yr Efengyl yw datguddio'r athrawiaeth bwysig i'r byd; *yno* y mae i'w chael braidd yn mhob adnod! Wel, ni gawn weled, gan bwyll, a ydyw hyn yn wir! Anhawdd iawn ydyw i Drindodwr i gredu, yn mlaen llaw, mor lleied o sail sydd i'r athrawiaeth yn y Testament Newydd. Wrth glywed yr haeriad yn cael ei wneuthur mor fynych ac mor *llithrig*—mai *prif athrawiaeth* Cristnogrwydd yw'r Drindod—ei bod yn cael ei dysgu yn mhob tudalen o'r Testament Newydd—nad oes y fath beth â iechydwriaeth heb ei chredu yn *ddiffael*, &c., nid rhyfedd i fod y Trindodwr yn cymeryd y cwbl yn ganiataol, a bloeddio gyda'r werin gynt, "Mawr yw Diana yr Ephesiaid!"

Un o'r ychydig adnodau ag yr ystyrir eu bod yn dysgu Trindod yn y Testament Newydd ydyw Math. xxviii. 19, "Ewch gan hynny a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. A oes *Trindod* o bersonau dwyfol i'w chael yma? Nid oes yma ddim son am fod y "Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Ysbryd Glân yn Dduw." "Yn y Drindod hon, sef eiddo Athanasius, nid oes cynt neu gwedi eu gilydd; nid oes un mwy na llai na'u gilydd; eithr yr holl dri Phersonau ydynt ogydtragywyddol, a gogyfuwch." Nid oes yn yr adnod hon ddim ond yr hyn y mae pob Undodwr yn gredu ac yn ddeall yn drwyadl; sef y *Tad*—gwreiddiol achos o bob daioni; y Mab—cyfrwng holl fendithion y Tad i'w blant; yr Ysbryd Glân—sef ysbryd y Tad ei hun, yr hwn sydd yn puro ac yn sancteiddio yr holl deulu dynol. Mae Trindodiaid yn gyftredin yn cyfaddef mai'r un peth yw "bedyddio yn enw," a "bedyddio *i enw*," ac mai yr un peth yw bedyddio i enw'r Tad, a bedyddio i'r Tad, &c., sef bedyddio i'r grediniaeth o wirioneddau y Grefydd Gristionogol (gwel Bloomfield ar yr adnod). Er cadarnhau hyn, gwel 1 Cor. x. 1, 2, "Ac ni fynnwn i chwi fod heb wybod, frodyr, fod ein tadau oll dan y cwmwl, a'u myned oll trwy y môr; a'u *bedyddio hwy i Moses* yn y cwmmwl, ac yn y môr;" h.y., hwy a wnaethant cyffes o'u cred yn Moses. Nid oes genym ddim hanes yn y Testament Newydd i'r dysgyblion erioed arferyd y ffurf yma wrth fedyddio—sef, "yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân." Yr oeddynt bob amser yn arferu y geiriau, "yn enw yr Arglwydd Iesu" (Act. viii. 16), neu, "yn enw

Iesu Grist" (Act. ii. 33), neu, "yn enw yr Arglwydd" (Act. x. 48), neu, "i Grist Iesu" (Rhuf. vi. 3), neu, "yng Nghrist" (Gal. iii. 27). Oddiwrth arferiad gwastadol yr Apostolion y gellir casglu, ynte, mai yr un peth a feddylir wrth fedyddio "yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân," yn yr adnod dan sylw, a bedyddio "yn enw yr Arglwydd Iesu," neu bedyddio "i Grist Iesu"—sef proffesu ffydd yn y gwirioneddau hynny a ddysgir gan Grist Iesu. Gwelwn, ynte, mai "bedyddio i Moses" yw gwneuthur proffes o'u cred yn y gwirioneddau a ddysgodd Moses—mai "bedyddio i Grist Iesu" yw gwneuthur proffes o'u cred yn y gwirioneddau a ddysgwyd gan Grist—mai "bedyddio i farwolaeth Crist" yw credu iddo farw ac adgyfodi (Rhuf. vi. 3).

Gan y gosoda Trindodiaid *bwys neillduol* ar yr adnod hon—yn wir hon yw "pen congl-faen" eu sail i Athrawiaeth y Drindod—nis gellir bod yn rhy fanol yn ein gwaith yn ymdrechu dangos ei gwir feddwl. Yn ganlynol, mi gaf ddiweddu fy sylwadau presenol yng ngeiriau Trindodwr dysgedig a pharchus, J. D. Michaelis (The Burial and Resurrection of Jesus Christ, pp. 325—327).

"Yr ydym yn gwybod pa mor fynych y cyfeirir at yr adnod hon, fel prawf o Athrawiaeth y Drindod; rhaid i mi gyfaddef nas gallaf ei hystyried yn yr olwg yma. Tragywyddol Dduwdod y Mab—yr hyn a ddysgir mor amlwg mewn manau ereill, ac yn neillduol yn Ioan i. 1—14, a Rhuf. ix. 5,—nid ydyw yn cael ei goffhau yma; ac nid yw yn bosibl i ddeall oddiwrth yr adnod pa un a ydyw yr "Ysyryd Glân" yn berson ai peidio. Darllenwch yr ail benod yn yr Actau, pryd y bedyddiwyd tair mil ar yr un diwrnod. Beth wyddai y personau yma am Dduwdod Crist, pan ni ddywedodd Pedr, yn ei araith, un gair am dano? (Duwdod Crist) Beth a wyddent am berson yr Ysbryd Glân?" &c.

D. Ll.

(I'w barhau.)

RHAG-HANFOD CRIST.—Llythyr IV.

Mr. Gol.—Ioan viii. 58, "Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, cyn bod Abraham yr wyf fi."

Y mae pedwar meddwl wedi cael eu rhoddi i'r geiriau uchod.

Yn gyntaf, dywedir fod y geiriau yma yn dysgu tragywyddoldeb y Mab, oblegid fod *ego eimi*, Ydwyf, cyn bod Abraham Ydwyf, yn cyfeirio at eiriau Duw wrth Moses, Exod. iii. 14, "A Duw a ddywedodd wrth Moses, Ydwyf yr hwn Ydwyf; dywedodd hefyd, Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel, Ydwyf a'm hanfonodd atoch." Ond gan nad *ydwyf* ydyw yn yr Hebraeg, ond Byddaf yr hwn a fyddaf; Byddaf a'm hanfonodd attoch, nis gall fod un sail oddiwrth yr iaith wreiddiol fod Crist yn y geiriau uchod yn cyfeirio at eiriau Moses oll. Ac nid oes gwell sail yng nghyfieithiad y deg a thriugain, y cyfieithiad a arferai Crist a'i apostolion yn eithaf tebyg; yn y deg a thriugain y mae'n sefyll fel hyn, *ego eimi ho ón*, Ydwyf yr hwn sy'n bod; yr hwn sydd yn bod, *ho ón*, a'm hanfonodd attoch, ac nid *ego eimi*, Ydwyf. Ar y dyb hon hefyd, Abraham fyddai y Jehofah yng ngeiriau Crist, yr hyn a ymddengys yn amlwg oddiwrth osod enw Duw neu Jehofah yn lle *ydwyf* yn y testun uchod; fel hyn, "Yn wir, yn wir meddaf i chwi, cyn bod Abraham yn Jehofah," yr hyn sydd yn ffolineb amlwg.

Yr ail feddwl yw hwn, fod y geiriau yma yn arddangos rhag-hanfod Crist yn eglur; ac i'r diben i wneud y peth yn fwy amlwg fyth cyfieithir y geiriau fel hyn "Cyn *geni* Abraham yr *oeddwn* i." Y mae y rhan amlaf o'r Undod-iaid hefyd yn cyfieithu'r geiriau yr un fath, sef, "Cyn geni Abraham yr oeddwn i, neu Myfi oedd efe, sef y Messia; hynny yw, fod Iesu ym mwriad Duw fel y Messia cyn i Abraham gael ei enw. I gadarnhau'r dyb hon, dywedir nad yw *ego eimi*, yr wyf fi, nemawr byth yn arwyddoccau bodoliaeth yn unig; ond ei fod yn dangos modd, amgylchiad, neu *condition;* fod y gair llanw wedi ei adael allan yma, er ei fod yn cael ei osod i fewn yn briodol yn adnod 24 a'r 28 o'r bennod hon, "Oni chredwch chwi mai myfi yw *(efe)*, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau. Pan dderchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw *(efe)*, *ego eimi*. Felly hefyd y mae'r un ymadrodd yn cael ei gyfieithu mewn amrywiol fannau. Weithiau y mae'r gair llanw yn cael ei osod i mewn yn yr iaith Roeg, sef, *ho erchomenos*, myfi yw efe yr hwn sydd yn dyfod. Dywedir hefyd, er mwyn cynnal y dyb hon, fod pethau a phersonau yn fynych yn cael eu gosod allan fel yn bod, hynny yw, ym mwriad Duw, ymhell cyn eu dyfod i fodoliaeth mewn gwirionedd. Y mae'r Apostol Paul yn dywedyd, Rhuf. iv. 17, am Abraham, "Megis y mae'n ysgrifenedig, Mi a'th WNAETHUM yn dad cenhedloedd lawer;" h.y., yr wyf wedi bwriadu dy wneuthur yn dad cenhedloedd lawer. Ac y mae'n dywedyd, o herwydd hyn, fod Duw yn galw y pethau nid ydynt, fel pe byddent. Y mae ymadroddion o'r fath i'w cyfarfod yn fynych yn yr Hen Destament. Felly y mae Duw yn siarad am Cyrus cyn ei eni, Isaiah xlv. 1, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth ei eneiniog, wrth Cyrus, yr hwn yr *ymaflais* i yn ei ddeheulaw;" h.y., yr hwn y bwriedais ymaflyd yn ei ddeheulaw. Felly hefyd am Sesach a Babilon, Jer. li. 41, "Pa fodd y *goresgynwyd* Sesach! Pa fodd yr *ynillwyd* gogoniant yr holl ddaear! Pa fodd yr *aeth* Babilon yn syndod ymysg y cenhedloedd?" Dywedir am Iesu Grist, iddo gael ei ladd cyn seiliad y byd. Am y Cristionogion, 2 Tim. i. 9, "Yr hwn a'n *hachubodd* ni, ac a'n *galwodd* ni a galwedigaeth sanctaidd, nid yn ol ein gweithredoedd ni, ond yn ol ei arfaeth ei hun a'i *ras*, yr hwn a *roddwyd* i ni yng Nghrist Iesu, *cyn dechreu y byd.*" Y mae hyn, ynghyd ag amrywiol o enghreifftiau eraill, yn dangos fod pethau a phersonau yn cael eu gosod allan fel yn bod cyn iddynt erioed fodoli mewn gwirionedd, o herwydd eu bod i gymeryd lle yn ol bwriad Duw. Felly gallasai Crist yn briodol ddywedyd ei fod yntau yn bodoli, fel y Messia, ym mwriad Duw, cyn geni y patriarch Abraham.

I hyn fe attebir, nad yw Crist, ar y tir hwn, ddim yn haeru mwy am dano ei hun, na all pob dyn ddywedyd am dano ei hun; fod pawb yn bodoli ym mwriad Duw cyn geni Abraham, a chyn bod y byd hefyd. Ond hawdd yw atteb hyn; o herwydd er ei bod yn wir fod pob dyn yn bodoli ym mwriad Duw cyn bod Abraham; er hyny, nid gwir am neb ond Iesu, ei fod yn bod ym mwriad Duw *fel y Messia;* efe yn unig oedd wedi ei ragordeinio i'r swydd oruchel hon, ac felly nis gallasai neb ond ei hunan fodoli, fel y cyfryw, ym mwriadau Duw.

Ond y mae gwrthddadleuon pwysig eraill i'r dyb hon. Yn gyntaf, y mae'r cyfieithiad yn feius yn y ddwy ran. Y rhan gyntaf, cyn *geni* Abraham, *prin genesthai.* Y mae'r ferf *genesthai* yn cael ei harfer 38 gwaith yn y Testament Newydd. Y mae'n arwyddo amser i ddyfod mewn *pymtheg ar ugain* o leoedd, a dim ond *tair* gwaith yn arwyddo amser a aeth heibio. Ymhellach, y mae

genesthai yn Ioan, bob amser, yn arwyddo amser i ddyfod, ond yn yr adnod hon, a chymeryd yn ganiattaol ei fod yma yn arwyddo amser a aeth heibio. Y mae'r gair yn cael ei arfer saith gwaith i gyd, sef, Ioan i. 12, "Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes allu iddynt i *fod*, *genesthai*, yn feibion i Dduw; iii. 9, "Nicodemus a attebodd ac a ddywedodd, Pa fodd y dichon y pethau hyn *fod*, *genesthai*;" v. 6, "A fynni di dy *wneuthur*, *genesthai*, yn iach," neu a fynni di fod yn iach;" viii. 58, "Cyn bod, *prin genesthai*, Abraham, yr wyf fi;" ix. 27, "A ydych chwithau yn ewyllysio bod, *genesthai*, yn ddisgyblion iddo ef?" xiii. 19, "Yn awr yr wyf yn dywedyd cyn ei ddyfod, *pro tou genesthai*, fel pan ddel y credoch, mai *myfi yw* efe." Y mae'r ymadrodd yn yr adnod hon yn hynod o gyffelyb i'r un dan sylw; *pro tou genesthai*, cyn ei ddyfod, yn atteb i *prin genesthai*, cyn bod Abraham a dylai yr olaf, mewn pob tegwch, gael ei gyfieithu hefyd, cyn dyfod Abraham; *hoti ego eimi*, mai myfi yw efe, yn atteb i *ego eimi*, a ddylai hefyd gael ei gyfleithu, Myfi yw efe. xiv. 29, "Ac yr awr hon y dywedais i chwi *cyn ei ddyfod*, *prin genesthai*, fel yan ddel y credoch." Y mae un llaw-ysgrif yn ychwanegu yma y geiriau, *hoti ego eimi*, mai myfi yw efe. Felly bydd y geiriau llanw yr un peth â Ioan xiii. 19, A chaniattau hyn, y mae gennym ymadrodd yr un peth yn gymmwys a'r adnod dan sylw, sef viii. 58. A dylai yr un ymadrodd gael ei gyfieithu yr un modd, yn yr un awdwr, oni fydd rhywbeth yn y cyssylltiad yn gofyn cyfieithiad gwahanol. Felly nid yw Ioan byth yn arfer *genesthai* am amser a aeth heibio. Yn Act. i. 22, "Gan ddechreu o fedydd Ioan hyd y dydd y cymmerwyd ef i fyny oddiwrthym ni, bod un, *genesthai*, o'r rhai hyn gyda ni yn dyst o'i adgyfodiad ef;" iv. 28, "I wneuthur pa beth bynnag a ragluniodd dy law a'th gynghor di eu gwneuthur, *genesthai*;" xix. 21, "A phan gyflawnwyd y pethau hyn, arfaethodd Paul, yn yr Ysbryd, gwedi iddo dramwy trwy Macedonia ac Achaia, fyned i Jerusalem, gan ddywedyd, Gwedi i mi fod yno, *genesthai*, rhaid i mi weled Rhufain.

Oddiwrth hyn, y mae'n amlwg fod *genesthai* yn gyffredin yn arwyddo amser i ddyfod yn y Testament Newydd. Ac yn yr unig fan, Ioan xiv. 29, lle y mae y rhagddodiad *prin* o'i flaen, ni all arwyddo un amser arall. Felly y cyfieithiad cywir o'r rhan flaenaf o'r ymadrodd dan sylw, fel y mae'n ymddangos i mi, yw hwn, "Cyn dyfod, neu cyn byddo Abraham."

Yn awr ni a awn at yr ail ran, sef *ego eimi*, yr wyf fi, a gyfieithir gan yr Ariaid a llawer o'r Undodiaid hefyd, "Yr oeddwn i." Ar ol yr ymchwiliad manylaf, yr wyf wedi dyfod i benderfyniad hollol wahanol. Y mae *ego eimi* i'w gyfarfod tua 132 gwaith yn y Testament Newydd, ac ym mhob man ond un y mae'n arwyddo yr amser presenol. Yr eithriad yw Ioan xiv. 9, "Yr Iesu a ddywededd wrtho, A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi Philip?" Ond y mae'n amlwg na wna'r amser a aeth heibio ddim o'r tro yma chwaith, "A oeddwn i gyda chwi gyhyd o amser, ac nid adnabuost fi Philip?" Nid dyma'r meddwl yn amlwg: Ond a ydwyf wedi bod, ac yn parhau i fod gyda chwi gyhyd o amser, &c. Ond ni wna'r cyfieithiad hwn ddim o'r tro i ddangos mai Iesu oedd y Crist yn y bwriad dwyfol cyn bod Abraham. "Yr wyf fi wedi bod ac yn parhau i fod y Crist" yn y bwriad dwyfol. Nid yw hyn yn gwneuthur synwyr da, ac nid yw i'r pwrpas oll, gan mai bodolaeth ac nid ansawdd y mae y geiriau yn Ioan xiv. 9 yn osod allan.

Y mae'r ymadrodd yn amlwg yn ddiffygiol, ac y mae'r Undodiaid, y rhai a gyfieithiant y geiriau, Myfi oedd, yn gosod y gair *efe* i mewn, i gyflawni'r diffyg, fel y mae'n cael ei osod yn fynych gan gyfieithwyr y Testament

Newydd eu hunain, gan feddwl wrth hyn mai efe oedd y Messia neu'r Crist.

Yn nesaf, pa le bynnag y mae'r gair *efe*, neu ryw air arall, yn cael ei osod i mewn i lanw'r diffyg gan y cyfieithwyr, neu pan y mae'r ymadrodd llawn yn cael ei arfer gan ysgrifenwyr y Testament Newydd, nid yw *ego eimi* byth yn arwyddo amser a aeth heibio bryd hynny; yr hyn sydd yn angeuol i'r dyb sydd yn gofyn cyfieithu'r geiriau, Myfi oedd *efe*. Ychydig enghreifftiau fyddant ddigonol i ddangos hyn. Mat. xxiv. 5, "Canys daw llawer yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi *yw* y Crist," ac nid myfi *oedd* y Crist. Gwel hefyd Marc xiii. 6; Luc xxi. 8. Yn Marc xiv. 62, y mae Crist yn atteb gofyniad yr archoffeiriad, "Ai ti yw Crist, mab y Bendigedig? A'r Iesu a ddywedodd, Myfi *yw* efe," nid Myfi *oedd* efe. Ioan i. 20; iii. 28, y mae Ioan Fedyddiwr yn dywedyd, "Nid myfi *yw* y Crist." Yn Ioan iv. 25, 26, y mae ymddiddan y wraig o Samaria a Christ, ac atteb yr Iesu iddi: "Mi a wn fod y Messias yn dyfod, yr hwn a elwir Crist, pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ni bob peth. Iesu a ddywedodd wrthi hi, Myfi, yr hwn wyf yn ymddiddan a thi, *yw hwnnw*," ac nid fi *oedd* hwnnw, sef y Crist. Yn Ioan vi. 36, 41, 48, 51, y mae'r Iesu yn dywedyd, "Myfi *yw* bara'r bywyd, *ego eimi*," nid myfi *oedd* bara'r bywyd, gan feddwl o hyd mai efe oedd y Messia neu'r Crist. Yr un modd y mae'n dywedyd yn Ioan viii. 12, "Goleuni y byd ydwyf fi," nid oeddwn i; adn. 24, "Oblegid oni chredwch chwi mai myfi yw *(efe) ego eimi*," nid mai myfi *oedd* efe, "chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau; adn. 28, "Pan dderchefoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw *(efe)*," ac nid, mai myfi *oedd* efe, "ac nad wyf fi yn gwneuthur dim o honof fy hun, ond megis y dysgodd fy Nhad fi, yr wyf yn llefaru y pethau hyn." Felly hefyd y mae'r Iesu yn dywedyd, Ioan x. 7, 9. "Myfi *yw* drws y defaid, adn. 11, 14, Myfi *yw*, nid oedd, y bugail da; 36, "Mab Duw *ydwyf*," nid oeddwn; xi. 25, "Myfi yw, nid oedd, yr adgyfodiad;" xiii. 19, "Yn awr yr wyf yn dywedyd i chwi cyn ei ddyfod, fel pan ddel y credoch, mai myfi *yw*, nid *oedd*, efe;" xiv. 6, "Myfi *yw* y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd," &c. Felly ni a welwn pan y mae'r diffyg yn cael ei gyflawni gan y cyfieithwyr, neu'r ymadrodd llawn yn cael ei arfer gan yr ysgrifenwyr santaidd, nid yw *ego eimi*, myfi yw efe, byth yn arwyddo myfi *oedd* efe, neu'r Crist, neu'r winwydden, neu fara'r bywyd, ond myfi *yw* y pethau hyn. Yn awr y mae'r casgliad yn rhwydd oddiwrth y rhagddodion hyn, mai yr unig gyfieithiad y mae arferiad cyffredin yr Ysgrythyrau, yn neillduol mewn perthynas i'r Iesu, yn ganiattau yw hwn, "Myfi yw efe:" ac felly cyfieithiad yr adnod i gyd yn sicr ddylai fod, "Cyn dyfod Abraham, myfi yw efe:" hyn yw, cyn y byddo i Abraham ddyfod yn dad cenhedloedd lawer, fel y mae ei enw yn arwyddo, myfi yw efe, yr hwn sydd yn dyfod i gyflawni addewid Duw iddo pan y newidiodd ei enw o Abram i Abraham.

Yn nesaf, y mae'r ddau gyfieithiad Syriaeg, y Peshito, a'r Philoxenian, fel hyn, "Cyn byddo, *neveh*, Abraham, myfi yw." Yr un ferf ag sydd yn cael ei harfer yn Ioan xiv. 29, "Ac yr awr hon y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, *hadlo neveh; Philoxenian, kedhom detheveh*, cyn y byddo, fel pan ddel y credoch." Felly hefyd y mae'r ddau gyfieithiad yn cyfieithu'r cyffelyb ymadrodd yn Ioan xiii. 19, "Yn awr yr wyf yn dywedyd i chwi cyn ei ddyfod, (Peshito, *men kedhom deneveh*, cyn y byddo) (Philox: *kedhom detheveh*, cyn y byddo). Y mae Prof. White, yn ei gyfieithiad Lladin o'r Philoxenian yn y ddau fan yn cyfieithu fel hyn; *priusquam fiat*, cyn ei ddyfod; er ei fod yn cyfieithu yr un ymadrodd yn gymmwys yn Ioan viii. 58, *Quod antequam Abraham esset*,

ego eimi, cyn bod Abraham yr wyf fi, heb un awdurdod dros y cyfryw wahaniaeth oddiwrth y Syriaeg.

Yr wyf yn sylwi ymhellach etto mai yr esponiad uchod, sef fod Iesu wedi dyfod i gyflawni addewid Duw i Abraham, trwy ei wneyd yn dad cenhedloedd lawer, sydd yn cyfrif oreu am gynddeiriogrwydd yr Iuddewon yn erbyn yr Iesu. Pe buasent yn deall yr Iesu yn dywedyd ei fod ef mewn bodoliaeth cyn geni Abraham, gadawsent ef yn ddigon tebyg, gyda diystyrwch, fel dyn wedi ynfydu: ond pan y gwelsant ei fod ef gymaint yn fwy nag Abraham, fel nad oedd bossibl i'r patriarch hwn fod yn dad cenhedloedd lawer ond trwyddo ef, yr oedd yn naturiol iddynt, gan nad oeddent yn credu ynddo, i ymgynddeiriogi wrtho, a chyfodi cerrig i'w labyddio.

Cyn diweddu y mae gennyf rai gwrthddadleuon i'w hatteb.

1. Dywedir nad yw'r eglurhad hon yn angenrheidiol; oblegid addefir gan bawb fod dehongliad cyffredin y rhan gyntaf yn ddiffynadwy; a chyttunir yn gyffredin fod yr awdurdod yn ddigonol dros roi'r arwyddocad o amser a aeth heibio i'r ail ran. Atteb.—Dangosasom yn barod nad yw'r dehongliad cyffredin o'r rhan gyntaf yn ddiffynadwy oll; ac nid yw'r awdurdod dros gyfieithu yr ail ran yn yr amser a aeth heibio yn ddigonol, ond yn hollol i'r gwrthwyneb, gan nad oes ond un esiampl lle y gall *ego eimi* arwyddo, ydwyf wedi bod, ac yn parhau i fod.

2. Dywedir, os yw'r dehongliad a gynnygir yn iawn, y dylai'r ymadrodd fod "Cyn y delo Abram yn Abraham;"—fod yr ellipsis yn rhy draws, a'r dull o'i gyflawni yn ormesol. Ond i hyn gellir atteb, nad oes yma ond haeriad yn unig heb un prawf.

3. Dywedir fod y gair Abraham bob amser yn y Testament Newydd yn cael ei arfer fel enw priodol, ac nad yw byth yn cael ei arfer mewn ystyr ffigurol neu ddamhegol. Atteb.—Os nad wyf yn camsynied, yr wyf yn meddwl fod Abraham yn cael ei arfer yn yr ystyr o dad cenhedloedd lawer, ac nid fel enw priodol yn y benod hon ei hun, yn gystal ag mewn mannau ereill o'r Testament Newydd. Adn. 39, "Hwythau a attebasant ac a ddywedasant wrtho, Ein tad ni yw Abraham. Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Pe plant Abraham fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech." Nid yw'r Iesu yn meddwl gwadu yma nad oedd yr Iuddewon yn blant Abraham o ran llinach natturiol, oblegid y mae ef ei hun yn adn. 37 yn dywedyd, "Mi a wn mai had Abraham ydych chwi; er hynny nis gallasent fod yn blant i'r hwn oedd yn dad cenhedloedd lawer, neu dad y ffyddloniaid, heb weithredoedd Abraham; yn yr ystyr hyn nid oeddent hwy yn blant i Abraham. Felly y mae'r gair Abraham a'r gair plant yn cael eu harfer yma mewn ystyr ffigurol neu ddamegol. Engraifft neu ddwy yn rhagor a wna'r tro. Mathew iii. 9, "Ac na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, Y mae gennym ni Abraham yn dad i ni; canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, y dichon Duw, ie, o'r meini hyn, gyfodi plant i Abraham." Nid fel enw priodol yn sier y mae Abraham yn cael ei arfer yma etto. Yn ei lythyr at y Galatiaid, y mae'r Apostol yn dangos mai nid o'r ddeddf y mae cyfiawnder, ond mai trwy ffydd y mae bod yn blant yr addewid, ac yn etifeddion y fendith. iii. 8, "A'r ysgrythyr yn rhag-ddywedyd mai trwy ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y cenhedloedd, a rag-efangylodd i Abraham, gan ddywedyd, Ynot ti y bendithir yr holl genedloedd." Yna y mae'n myned ymlaen i ddangos mai Crist yw'r had, nid hadau, oedd i gyflawni hyn, sef gwneuthur y cenedloedd yn blant i Dduw, ac yna y mae'n diweddu, adn. 28, 29, "Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid

oes na chaeth na rhydd, na gwrryw na benyw: canys chwi oll un ydych yng Nghrist Iesu. Ac os eiddo Crist, yna *had Abraham* ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid." Yn sicr nid yw'r apostol yn meddwl haeru yma fod y cenhedloedd yn gystal a'r Iuddewon yn blant i Abraham mewn ystyr natturiol, oherwydd gwyddai well; ond mewn ystyr ffigurol, arallegol yn unig y mae'n siarad. Felly y mae'r gair Abraham yma i'w gymeryd, nid fel enw priodol, ond yn yr ystyr y darfu i Dduw ei roddi iddo, i arddangos y byddai yn dad cenhedloedd lawer, yn dad y ffyddloniaid, pa un ai Iuddewon neu genhedloedd fyddent; a thyma'r ystyr yn gymmwys a roddir i'r gair Abraham yn yr adnod dan sylw. "Cyn dyfod Abraham, myfi yw efe, y Crist, yr had sydd yn dyfod i gyflawni addewid Duw, ac i sylweddoli yr enw a roddodd Duw i'r hen batriarch."

4. Dywedir fod y gosodiad yn ysgafn, ac yn anheilwng o'r difrifoldeb, trwy yr hwn y dygir ef i mewn, fod yr Iesu yn dywedyd yn ddifrifol ei fod ef yn Fessia cyn amser ag y gwyddai pawb nad oedd i gymmeryd lle am flynyddau neu oesoedd ar ol hynny. Ond y mae'r cyfieithiad a roddasom uchod yn ddigon o hono ei hun i atteb y gwrthddadl ysgafn hwn. "Cyn dyfod Abraham, myfi yw yr hwn sydd yn dyfod i'w wneuthur felly." Y mae'r esponiad hwn yn ymddangos i mi yn gywir; barned pob un drosto ei hun.

N.

MARWNAD

Er coffadwriaeth am y diweddar Barchedig David Davis o Gastellhywel, yr hwn a fu farw Gorphenaf y 3ydd, 1827, *yn* 83 *mlwydd oed. Un o destynau Eisteddfod Castell Newydd yn Emlyn,* 1859.

Dros geulan amser syrthia dynolryw,
O un i un, gosodiad dwyfol yw
I ddynion feirw, yna barn a fydd
Yn aros pawb yn nhymp yr olaf ddydd.
Y call, y ffol, yr uchelradd, a'r tlawd,
Y mawr ei ddysg, a'r anwybodus frawd,
Raid teimlo brath y lem angeuol saeth,
A mynd i'r bedd yn fud garcharor caeth.
Cawn brofi hyn i'n mhysg o ddydd i ddydd,
Llaw angau'n rhywle ganfyddadwy sydd,
Pan dery un fo'n flaenor yn ein mhysg,—
Un mewn awdurdod neu un mawr ei ddysg;
Pan gollir hwn fe deimlir gofid erch,
A thorir holl linynau tyner serch.
Teimlasom hyn yn drwm pan syrthiodd lawr
Ein Dafis 'rhwn oedd archddiweinydd mawr;
A phen dysgawdwyr Cymru drwyddi'i gyd,
A phrif ddiwygwyr Gwalia deg ei phryd.

Cadfridog hardd yn myddin Ior oedd ef,
Fe gadwai'i filwyr dan ddysgybleeth Nef;
A tharian ffydd yn wrol elai'n mla'n,
A helm y nefol iachawdwriaeth lân;
Ei arfau ef oedd drech na chig a gwa'd,
Sef arfau gloywon ei Anfeidrol Dad.
Yn fugail oedd ar ddefaid gwar y Nef,
Gwrandawai'r praidd yn ufudd iawn ei lef;
Fe ddenodd lu o'i gydgreaduriaid droi
O'u gwydawl ffyrdd i'r ddinas noddfa ffoi;
Fe wnai ledaenu crefydd Iesu Grist,
Fe'i rhoddai'n falm i'r gwael bechadur trist.
Ei fwyd a'i ddiod ydoedd gwneyd ei ran,
Rhoi grymus ffydd i'r hwn a deimlai'n wan,
Troi'r ffol crwydredig idd y llwybrau iawn—
I'r fan lle 'roedd gwir iachawdwriaeth lawn.
Pan f'ai'n esponio yr Ysgrythyr lân,
Trwy'i danllyd enaid fflamiai nefol dân:
Fel un o dan awdurdod Brenin Nef,
Effeithiol fyddai ei bregethau ef,
E grynai pechaduriaid wrth ei lais,
Gadawai'r annuwiolion ffiaidd drais;
Ymrestrent dan ei faner nefol ef,
Gan ymdebygu i dduwiol blant y nef.
Nid plisgyn ysgafn oedd ei grefydd ef,
Ond cnew'llyn bywiol ymborth teulu'r nef.
Ei bleser pennaf ydoedd troi y byd
I ffyrdd y nef o'i bechadurus wyd;
Efengyl Crist a'i gwych fendithion hi,
A'i rhagoroldeb a ddangosai i ni.
Dangosai gariad a thadoldeb Duw,
A'i fawr drugaredd at holl ddynolryw;
A'i faddeugarwch brofodd lawer gwaith
Drwy'r mab afradlon gyda gruddiau llaith.
Yn weithiwr ffyddlawn bu yn ngwinllan Duw
'Ngwawdd pechaduriaid i wneyd da a byw
Yn dduwiol, tra chaent aros yn y byd,

Gan adael heibio chwant andwyol wyd,
A dilyn auraidd ddeddfau Iesu mâd,
Adnabod hwn a'r byth dragwyddol Dad.

Fe syrthiodd yn myddinoedd Israel gyst
Y cedyrn filwyr oeddynt dda eu hynt;
A syrthiodd yn myddinoedd Cymru fad
Y cadarn cryfaf feddai yr holl wlad.
O! Ceredigion cefaist golled llym,
Pan gollaist Dewi collaist ran o'th rym;
Efe oedd un anaml gweli ei fath,
Ei golli oedd i'th blant yn echrys frath.
Aeth er pan gwympodd heibio flwyddi maith,
Ond llawer gofia'r dydd a grnddiau llaith;
O'i ol mae etto'n amlwg golled mawr,
A bwlch na lenwir ef yr oes sy' nawr.
Gan alar trwm ei ddiadellau sydd
Dan dristaf fantell hiraeth nos a dydd,
Ar ol eu gwych areilydd hoff a mad—
Eu pen cynghorwr a'u daiarol dad.

Er dysgu ieithoedd hen y dwyrain fyd—
Y Groeg, y Ladin, a'r Hebraeg, ynghyd,
A darllain gwaith y byth anfarwol feirdd—
Homer, Horace, a'u gwych gerddi heirdd,
A gwybod teithi awenyddiaeth rhai'n,
A gwisgo'u drychfeddyliau dysglaer cain;
Ni wadodd ef er hyny iaith ei fam,
Fe'i daliai fynu rhag cael diffaith gam,
Fe'i hamddiffynai rhag gelynaid drâs,
Erlidiai ffwrdd bob *Dic Shon Dafydd* câs,
A fynai'i rhoi mewn ebargofiant pell,
A'i chladdu mewn anghofawl gyfyng gell.

O'i enaid fflamiai awenyddol dân,
Nes llwyr wefreiddio plant y byd o'i bla'n;
Fe d'rawai naws y teimlad mwyaf têr,
A'i gân ogleisiai'r glust yn hynod bêr.
Melusder roddai i'r teimladau oer a sur—
Treiddiai ddwyfron ag a doddai'r galon ddur;
Mae tannau'i delyn ber yn eithaf tyn,
Adseinia Gymru trwy bob bro a bryn.
Ei seiniau sydd yn felus iawn i'r glust,
Ag yn adfywiad i bob calon drist;
Fel seiniau telyn Dafydd ar yr wyl,
Erlidiai bant bob yspryd drwg ei hwyl.
Fe bâr ei hadsain tra Chymraeg i'w chael,
Ei pheraidd leisiau nid y'nt oer a gwael,
Ond melus iawn i bawb fo'n llesg a gwan,
I ben bryn gobaith hi a'i dwg i'r lan;
Caiff wel'd drwy ffydd dros gysgod angau'n mhell,
Caiff drem ar fryniau nefol wlad sydd well.

Bu Castell Hywel gynt mewn uchel nôd,
Pan amddiffynai yr hen Gymry'u clod,
Pan oedd 'r hen Hywel gynt a'i wrol wyr
Yn tyn ymdrechu cadw hawl o'u tir;
Pan chwifiai'r bwa'r farwol saeth yn syn,
I ladd y gelyn yr ochr draw i'r bryn;
Pan rhuthrai'r cadfarch a'i angeuol garn,
Gan fathru'r gelyn yno'n hyllig sarn.
Nid llai enwogrwydd oedd i'r fangre hon,
Pan yn deml dysg a chartref awen lon;
Pan oedd 'r hen batriarch duwiol *Dewi* fwyn
Yn lloni'r gwledydd a thelynawl swyn;
Ei awen delaid yn cydbyncio'n ber,
A'r fwyn ehedydd fry yn ngwlad y ser.
Pan oedd dysgeidiaeth yma'n llanw'r gell,
Ag anwybodaeth wedi cilio'n mhell,
Ei fawr wybodaeth ef wasgarai ar led
Dros fryniau Gwalia a dinasoedd cred
Fel ysgolfeistr 'roedd tu hwnt i'w oes,
I'w ysgolheigion dwfn wybodaeth roes;
Bu ie'nctyd penaf drwy yr ynys hon
Yn cyrchu atto i sugno dysg o'i fron;
Gwnai eu dysgyblu a chyfreithiau llym,
A phob troseddwr gawsai odde'u grym.
Nis gwnai wahaniaeth rhwng y plentyn tlawd
A'r mawr etifedd oedd yn well ei ffawd;
Fe gospai'r drwg, a'r da wobrwyai'n hael;
Gan ddysgu pawb mai 'nol fel gwnaent oedd cael.
Anogai'r ieuainc i ddiwydrwydd oll,
I 'mofyn dysg heb unrhyw awr ar goll;
Os gwelai'r awen am flaguro ma's,
Rho'i bob cefnogaeth iddi gyda blas;
Fe ddysgodd fynu feibion lawer pryd
Yn glod i Gymru ag yn addurn byd.

Diragfarn oedd, ni fedrai gadw gwg
At unrhyw ddyn—ni feddai natur ddrwg.
Gwahanol gred mewn dibwys bethau mân
Mewn arddel crefydd nis gwnai'i rwystro'n mla'n;
Gwahanol enwad oddiwrtho'i hun
Gae ganddo barch yn ol fel haeddai'r dyn.

Yn goddef cam os gwelai eiddil wr,
Ei galon dyner doddai fel y dwr;
Gwrandawai gri'r amddifaid megis brawd,
Cymerai ran y weddw unig dlawd.
Traed oedd i'r cloff a llygaid oedd i'r dall—
Y drwg wnai'n dda a'r crwydryn ffol yn gall;
I'r dieithr-ddyn rho'i llety cynes clyd—
At bob daioni rhoes ei nefol fryd;
Fe ddisychedai'r dyn sychedig gwael,
I'r noeth newynog fe gyfranai'n hael.
Cefnogai bob rhyw welliant fyddai'n werth,
O blaid ein rhyddid safai a'i holl nerth;
Nid rhyddid Cymru'n unig fynai ef—
Dros feibion Affrig cododd rymus lef:
Ymroi a wnai dros ysgafnhad eu baich,
A thros eu rhyddid gweithiodd nerth ei fraich;
Ystyriai bawb yn blant ag eiddo Duw,
Pa un ai gwyn ai du a fydd eu lliw.

Pan oedd tywyllwch du yn cuddio'n gwlad,
Cyfododd ef fel seren ddysglaer fad;
Drwy ei wybodaeth a'i resymau gwrdd
Ymlidiodd ofergoelion gwag i ffwrdd.
O'i flaen ef anwybodaeth giliai'n mhell,
Addysgai'r byd mewn gwerthfawr bethau gwell;

Ei gais oedd gwella a goleuo'r byd—
Diwreiddio'n llwyr ei goeg grefyddau'i gyd;
Dwyn dynion at y gwir oleuni'n nes,
A dangos iddynt eu tragwyddol les.

Os yw e'n ddistaw yn ei feddrod llaith,
Nid yw yn ddystaw ei orchestol waith;
Ei bêr emynau sydd yn gysur mawr
I'r pererinion tra maent ar y llawr.
Ymysg enwogion Ceredigion deg
'E bâr ei gofion tra b'o awen chweg;
Chwlbana'i delyn beraidd yn y gwynt,
A'i enw'n ail i'r hen dduwiolion gynt:—
A saif, pan ddcrfydd clod rhyfelwyr byd.
Pan syrth eu dysglaer gofgolofnau'n nghyd.

Mewn oedran teg ddisgynodd hwn i'w fedd,
Oddiwrth ei lafur gorphwys wna mewn hedd;
Nes clywa floedd Archangel mawr y Nef
I'r wledd dragwyddol yn ei alw ef,
I fedi ffrwyth ei lafur ar y llawr,
A byth dragwyddol foli'i Grewr mawr.

G. Gwenog.

NID YW LLUN YN BRAWF O WIRIONEDD.

Mr. Ymofynydd,—Un o'r rwystrau mwyaf a eill gyfarfod y gwir athronydd, neu rhydd ymofynydd, ag sydd braidd barotaf i'w drawsgymhell oddiar lwybr gwastad a phrydferth ei ymchwil, yw yr arluniau *(pictures)* neu y defosiynau allanol a ddefnyddiwyd gan ddynion o enwogrwydd, a hyny yn ddiau heb unrhyw amcan rhagor nag arwain meddyliau'r werinos i goleddu rhyw bynciau, pwysig yn eu golwg hwy, ag y byddo dwyfol wirionedd yn methu, er ei ystwytho, a rhoddi un boddlonrwydd iddynt. Mae genyf yn fy meddiant, ac mewn lle cyhoeddus, hen arlun (er fod genyf barch i'r hen ffrâm fel celfigyn) y bydd yn warth gan oesoedd a ddaw, i edrych ar ei gynwysiad twyllodrus. Cynwys yr arlun y geiriau canlynol; gan bwy nis gwn; ond wele hwynt yn gymmwys fel ag y maent ar lawr:—

"CALFINIAETH."

"Amlygiad neu dabl; Yn dangos trefn yr achosion o'r Iechydwriaeth a Damnedigaeth yn ol gair Duw." Yna efe a â rhagddo i hysbysu amcan yr awdwr (medd ef), "Gall fod yn *Gatecism* i'r llygad, ac i'r rhai na fedrant ddarllen, oblegid wrth gyfeirio a bys, gallant ddirnad yn ddealladwy y pynciau penaf mewn Crefydd, yn nghyd a'u trefn hwy." Dyna ragymadrodd y ddyfais. Mae yr arlun wedi ei baentio gan arluniedydd lled fedrus. Yn yr arweiniad gwelir cynllun dyfeisiol o'r *Drindod* mewn cylch onglog, yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân, yn sefyll mal tair troed ystol, i ddenu sylw plantos, ac yn nghanol y cylch y gair "Duw," er cyfleu y conglau; ac er eu bod yn dri rhanedig, yn un yn y canol, felly er pob ymocheliad, nis gallant ymddangos i un gwir athronydd yn llai na phedwar, ond ni fynai eu hawdwr eu galw yn bedwar o dduwiau, rhag myned i ormod anhrefn. Yn ochr y llaw ddeau o'm blaen ceir llinell lydan dywell, yn gorblygu i mewn ac allan, mal ôl malweden ar y llawr, er dangos gyrfa wyrgam y dyn annuwiol; ond mae un gwall anhapus wedi digwydd ar y cynlluniwr, pwy bynag oedd; h.y., fod y cylch llydan ac annedwydd yn dechreu ei fodoldeb allan o'r cylch Drindodawl, yr hyn beth nad yw ei bleidwyr yn foddlawn ganiatau wrth geisio gogryn eu hymresymiad. Y llinellau, neu y llwybr cul, ag sydd yn arwain i'r bywyd, sydd megis yn dyfod allan o'r llinell lydan, ac yn myned ffwrdd rhag ei blaen, mingam-mongam, gan nyddu y gylchdaith, a phob tro neu gymal yn arddangos rhyw sefyllfa o'n bywdd, yn nghyd â'r temtasiynau; weithiau temtasiwn y dawnsio, y puteinio, yr oferdod, a'r *pit* ceiliogod, &c., &c." Wedi ceisio ein harwain fel yma, hyd faes dychymyg gwasaidd, mae y llinellau yn darfod cyn myned dan y pren, heb gymaint a darparu pwll y gwae na thrigfa o

wynfyd i un pererin, ar ol tremu amser uwchben ei anibendod twyllodrns. Mae'n rhaid fod cynllunwyr y fath luniau naill ai wedi colli eu hyder yn y Dwyfol wirioneddau, y rhai a ddysgwyd mor amlwg gan Grist a'i apostolion, sef y geiriau sydd fel *gordd* yn dryllio'r graig; neu heb erioed allu gweled eu gallu, cyn iddynt ymollwng i gymaint o blentyneiddiwch. Credwyf fod gwneuthur llun y Bod anweledig yn un, os nid y mwyaf o'r troseddau yn erbyn yr hwn nid oes lun iddo, yn y ffordd yma; ac nid oes dadl nad gweddillion ydyw o arferion yr eilun-addolwyr, ac anwybodaeth yr hen oesoedd tywyll.

Gwir fod dylanwad mawr gan y golygfeydd allanol ar y meddwl ac ar y deall. Ond pan yr ydym yn ein rhyfyg yn myned i wneuthur llun, i'r hwn nad oes genym yr un cynllun i'n hyfforddi, mewn mesur, llun, na phwysau, ac am nad ydyw ddim amgen na rhyw egwyddor gyffrous, a bywiog, a nerthol, yn bodoli yn a thrwy holl anian, onid ydym yn ymollwng i droseddu un o'r gorchymynion penaf, a'r pwysicaf? Er fod gweithiau yr hen John Bunyan, yn nghyd a'i ddychymygion disail a phlentynaidd, wedi cael eu cyfieithu i lawer o icithoedd Ewrop; eto ofnir fod llun ei ddiafol, a phump neu saith o benau iddo, wedi argraffu yn rhy ddwfn ar feddyliau y werinos feddal. Yr un peth yn gymwys fyddai dysgu fod y byd wedi cael ei fodoldeb trwy ddylanwad y "Nod Cyfrin," a dysgu Trindod wrth lygadu ar hen *fap* trindodaidd fel yma. Beth pe rhedai i ben rhyw un cyfrwys dynu llun y gredo hyny a elwir credo *Saint Athanasius?* Oni fyddai yn rhaid iddo wastraffu lawer iawn o bapur cyn dyfod yn agos i foddloni ei hun, oblegid yn union ar ol cwblhau un rhan o'i gynllun, a sylwi arno, yna byddai y rhan arall yn dyfod i'r golwg, a byddai yn rhaid iddo ddyfetha'r cyntaf cyn myned i ddechreu'r ail, a hyny drosodd a throsodd, oblegyd fod y gredo hono yn ddigon amlwg, bob yn ail *sentence* yn dyfetha un y llall. Darllener hi; mae i'w chael yn mhob Llyfr Gweddi Gyffredin, a welais i. Mae'n wir fod amser wedi bod pan nad oedd gan ein henafiaid un ffordd i gyfleu helyntion y naill i'r llall yn amgen na thrwy ffurfio lluniau er dynodi allan eu drychfeddyliau; a hyny a fu yr achos yn ddiau fod dynion wedi ac yn addoli y pethau *a welir* yn hytrach na'r hwn a ddarluniadd Paul o flaen yr Atheniaid, sef y "Duw nid adwaenir," yr hwn nid yw yn trigo mewn temlau o waith dynion, ac nid â dwylaw dynion y gwasanaethir ef, fel pe bai arno eisiau dim, oblegyd efe a wnaeth y byd a phob peth oll. Gan ei fod yn allu mawr sydd yn gweithio yn anweledig trwy y Nefoedd a'r ddaear, rhy anhawdd ydyw ei ranu na'i ddarlunio ar bapyr gan yr un celfyddydwr, gan nad faint byddo ei fedrusrwydd. A chofier yn wastad taw yr un peth yw y Gwir yn barhaus, bydded y lluniau y peth a fyddant; a'r un hefyd yw y pethau a ddysgwyd gan Grist a'i apostolion, am Dduw, ei gariad, a'i lywodraeth; a phe bai oddiar hyny can miliwn o flynyddoedd, ïe, ag os oes can miliwn o fydoedd yn bodoli, ac yn llawn o drigolion; a phe taerai eu holl breswylwyr yn groes i'r hyn a fu, ac a ddysgwyd, ni fyddai yn bosibl ei ddadwneyd, o'r hyn ag oedd ar y dechreu; am hyny, na fydded i luniau allanol i dywys ein meddyliau, ond geiriau syml y Gwirionedd Dwyfawl. Yr eiddoch yn serchog,

Carw Coch, *Trecynon.*

ENOC.

Mr. Ymofynydd,—Yn y *Christian Reformer* am Chwefror, 1835, y mae erthygl bychan yn nghylch y person hwn wedi ei ysgrifenu gan "P." Dywed ei fod yn cael ei hynodi yn y Beibl oherwydd y pethau canlynol:—

1. Ei fod yn dad i Methuselah y dyn hynaf mewn hanes.

2. Am ei dduwioldeb a'i rinwedd. Yma dywed "P" fod yr ymadrodd efe *a rodiodd gyda Duw* ymhell o fod yn gosod allan grym a nerth y gair gwreiddiol, yr hwn sydd yn arwyddo iddo osod ei hunan yn ddifrifol ac yn egniol i rodio gyda Duw. Ynghanol y llygredd a'r afreolaeth gyffredin yr oedd yn dysfalbarhau yn siriol yn ei dduwioldeb. * *

3. Y trydydd peth sydd yn ei hynodi yw ei gymeriad i fynu i'r nefoedd fel gwobrwy ei ufudd-dod; canys felly y golyga yr ysgrifenydd at yr Hebreaid (xi. 5); ac oherwydd y darluniad yma y mae hyn wedi bod yn farn gyffredin ymhlith dynolryw am hir amser. Ond a gafodd Enoc *yn wirioneddol* ei symud i'r nefoedd heb weled marwolaeth? Y mae "P" yn amheu gwirioneedd hyn, oherwydd nid yw Moses yn dywedyd ddim ychwaneg na hyn "Nid *oedd* efe, canys Duw a'i cymerodd ef."* Y mae yr ysgrifenydd at yr Hebreaid wedi dilyn cyfieithad y deg-a-thriugain, yr hwn sydd, meddai "P," yn gwahaniaethu oddiwrth y Saisnaeg a'r Vulgate. Cyfieithiad yr Hebraeg yw, "Nid oedd efe, canys Duw a'i cymerodd ef." "Yr wyf yn herio un dyn i brofi fod y gair LACACH, *cymeryd*, byth yn arwyddo *symud*, heb wneuthur y gwyrdroad mwyaf ar ciriau. Yr wyf fi yn ystyried nad yw'r geiriau yn arwyddo dim rhagor na bod Enoc wedi marw yn ddisymmwth ac yn ddedwydd, yn rhy gynnar (?) *(prematurely)* yr wyf yn addef, ond etto mewn parch a thangnefedd. Yr oedd marwolaeth Moses yn ddisymmwth ac yn heddychlon, a dywedir wrthym iddo gael ei gladdu gan yr Arglwydd, ac mewn modd dirgelaidd, fel "nad edwyn neb ei fedd hyd y dydd hwn." Y mae'r ymadrodd, Duw a'i cymerodd, yn gyffredin yn yr ysgrythyrau Hebreaidd. Gwel 1 Bren. xix. 4; Jonah iv. 3. Etto, pan y gweddnewidiwyd Crist ar y mynydd, ymddangosodd Moses ac Elias iddo. Os cafodd Enoc ei symmud yn wirioneddol, fel mae'r farn gyffredin, heb ddioddef marwolaeth, pa'm na chafodd efe hefyd, ac yntau o gymeriad mor hynod, ei anrhydeddu yr un modd ag Elias ar yr achlysur mawreddog ac ardderchog hwnw?"

4. Yn olaf. Y mae Enoc yn cael ei osod allan fel prophwyd hynod yn y iaith ganlynol:—"Ac Enoc hefyd y seithfed o Adda a brophwydodd am y rhai hyn, gan ddywedyd, Wele y mae yr Arglwydd yn dyfod, gyda myrddiwn o'i saint, i wneuthur barn yn erbyn pawb, ac i lwyr-argyhoeddi yr holl rai annuwiol o honynt am holl weithredoedd eu hannuwioldeb y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol, ac am yr holl *ciriau* caledion y rhai a lefarodd pechaduriaid annuwiol yn ei erbyn ef," Judas 14. 15. A dderbyniodd Judas y brophwydoliaeth hon o eiddo Enoc oddiwrth draddodiad geneuol (o ben i ben), neu, a ddarfu iddo ei gopio allan o ryw hen lyfr, yr hwn, fel llyfr Jasher (Joshua x. 13) sydd yn awr ar goll? Boed hyny fel y bo, y mae yn eglur oddiar dystiolaeth Judas fod Enoc nid yn unig yn ddyn da ond hefyd yn brophwyd yr hwn oedd yn rhagweled y dyfodol, ac yn rhagfynegu tynged y drygionus ar ddydd cyffredinol y cyfrif olaf, pan yr ymddengys yr Arglwydd Iesu yn ei ogoniant ei hun a gogoniant y Tad a'r angylion santaidd i roddi i bob un yn ol eu gweithredoedd.

Os na fydd eich gofod yn pallu, efallai y rhoddwch i'r dernyn uchod ymddangosiad yn yr YMOFYNYDD, os byddwch yn ei dybied yn deilwng o hyny.

MERLINUS.

*Gwel y Saisnaeg, y mae peth gwahaniaeth yn y Gymraeg, "Ac *ni welwyd* ef; canys Duw a'i," &c.

ATTEB I'R GOFYNIAD—

"Paham yr ydwyt yn Undodwr?"

Oherwydd, yn y lle cyntaf, nas gallaf ddim credu gwrthddywediad mewn geiriau, yr hyn mewn gwirionedd *gw* athrawiaeth y Drindod; ac nid *dirgelwch* fel y mae yn gyffredinol yn cael ei chyfrif: nid yw'r gair dirgelwch ond gorchudd yn unig—cuddlen wedi ei daflu dros y pwnge er attal iddo gael ei chwilio, yr hyn a fuasai yn gosod terfyn byr ar y matter;—noddfa wan i'r hon y mae'r meddwl yn ffoi, wrth ymdrechu diane rhag anhawsdra nas gellir myned drosto. Ond y mae'r ymdrech yn ofer: nid oes un diangfa i'w gael. Nid oes neb, 'rwyn meddwl yn credu yr athrawiaeth hon mewn gwirionedd; er fod llawer yn *treio*, ac yn treio yn gydwybodol i wneuthur hynny; ac y mae llawer yn tybied eu bod yn ei chredu, ond y maent yn cael eu twyllo. Nis *gall* neb gredu fod tri pherson gwahanol, a phob un o honynt yn briodol yn Dduw; ac etto, nad oes ond un Duw. Nid yw dynolryw ddim wedi eu donio a galluoedd y rhai a'u galluogant i gredu yr hyn sydd yn croesddywedyd ei hunan. Dichon yn wir y *gall* dyn gredu fod tri Duw; neu, ar y llaw arall, gall fod wedi ei argyhoeddi nad oes ond un Duw. Ond yr wyf yn herio i un dyn gredu y ddau ar yr un pryd. Gwelsit hyn yn union pe buasai dynion yn edrych ar y pwnc yn deg ac yn ddiduedd. Ond y mae cyfrwng cymmylog dirgelwch wedi ei osod ar y ffordd; ac y mae hwn yn rhy drwchus i wel'd trwyddo, ac yn rhy santaidd i gael ei gyffwrdd. Ac felly y mae dynion yn cael eu harwain i dybied eu bod yn credu—fod ganddynt ffydd yn rhywbeth nas gwyddant beth, am yr hwn nid ydynt yn alluog i ffurfio un drychfeddwl—na dychmygu dim rhagor; canys fel y dywed Dr. Benson—"I gredu heb amgyffred ydyw rhoddi eich cydsyniad heb feddylddrychau; a chydsyniad heb feddylddrychau, ydyw cydsyniad â dim; a chydsynio â dim sydd yr un peth a pheidio cydsynio oll."

2. Oherwydd fod yr Ysgrythyrau, yr hen a'r Newydd, trwyddynt yn honni ac yn dysgu Undod Duw,—mai Un yw Duw yn ystyr briodol a chyfyngaf y geiriau. Mae hon yn ffaith ag sydd yn cael ei derbyn gan bawb, ac y mae yn un o bwys mawr iawn. Y mae'r ysgrifeniadau rhyfedd yma, er eu bod wedi eu dwyn allan ar wahanol amseroedd, yn ymestyn yn ol i'r amseroedd boreuaf—etto y maent mor unffurf, mor gysson, ac mor ddigyfnewid ar y pwnc hwn, a phe byddai yr ysgrifenwyr i gyd wedi byw ar yr un pryd, ac wedi ysgrifenu mewn cynghrair a'u gilydd.

3. Oherwydd nad ydyw'r ychydig destunau o'r Ysgrythyr, ag sydd yn cael eu dwyn ymlaen amlaf, er cynnal athrawiaeth y Drindod, a Duwdod Crist ddim un o honynt yn dod i'r pwynt: mewn gwir, y maent ymhell oddiwrth hynny. Gellir rhoddi esponiad gwahanol iddynt oll. Nid yw'r cryfaf o honynt yn dywedyd dim cymmaint a bod tri *phe son* dwyfol; llawer llai fod pob un o'r rhai yma yn Dduw, ac ar yr un pryd nad oes ond un Duw. Nid oes dim o'r fath beth wedi ei *fynegu yn eglur*. Nid yw, gan hynny, ond wedi ei *gasglu*, wedi ei *dybied* ei fod yn cael ei *arweyddo*—dyna i gyd. Nid yw dim o'r geirian eu hunain yn y rhai y mae'r athrawiaethau yma yn cael eu gosod allan, i'w cael yn yr Ysgrythyr. Nid oes dim o'r gair Trindod yn digwydd unwaith yn y Beibl; na'r ymadroddion—Duw Fab, na Duw Ysbryd Glân chwaith. Nid oes un sail yn yr Ysgrythyr i'r dyb fod gan Grist ddwy nattur. Nid oes dim un man lle y dywedir ei fod yn gwneuthur un peth *fel Duw*, a pheth arall *fel dyn*. Dyfais dyn yn unig yw hyn oll. Ac a ydyw hi yn bossibl i gredu y buasai athrawiaethau, o'r fath bwys arbennig ag y dywedir fod y rhai hyn, yn cael eu gadael fel yma heb eu gosod allan

yn eglur; i gael eu dyfalu a'u gwneud allan trwy ychwanegiadau a chasgliadau trawdurdodus (*arbitrary*); ac wedi hynny i gael eu llunio gan ddychymmyg dyn i rywbeth tebyg i *system*—yr hon, yn y diwedd, nid yw yn alluog i wneuthur y gwahanol rhannau i gadw wrth eu gilydd.

(I'w barhau.)

ACHUB TRWY HAEDDIANT ARALL.

Yr ydych yn gweled y dyn accw sydd yn dyfod i mewn yn awr; a het a meld mawr; cot a choler cwmmws; gwyneb prysur; cam araf, distaw. Mor ofalus y mae yn cymeryd eisteddle yn y sêt a'r clustogau.

Wel, diacon yr Eglwys ydyw, ac un o'i cholofnau. Y mae i'r Eglwys lawer iawn o golofnau da, ac y mae'r diacon yn un o honynt. Y mae yn cario y bara a'r gwin o amgylch ar ddydd cymundeb; ac yn dwyn tystiolaeth i wirionedd y bregeth; yn rhybuddio pechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd, ac yn gwneuthur ei hunan yn ddefnyddiol yn gyffredinol. Dyn da—y diacon yna. Dyn duwiol. Caiff goron un o'r diwrnodau yma.

Y mae rhywbeth yn ysmala oddeutu'r diacon. Mae ganddo ddau fesur hanner bwsel—un wedi ei nodi yn "A" a'r llall "B." Mesurau da; neis iawn; wedi eu paentio yn dda. Y mae bob amser yn prynu ag "A," ac y y mae weithiau yn hela am hanner awr er cael gafael ynddo; y mae yn wastad yn gwerthu a "B." Y peth mwyaf ysmala fyddai er hynny, pe buasai yn gwneuthur camsynied rhyw ddiwrnod, a phrynu â "B" a gwerthu ag "A." Wel, ïe yn wir. Ond daccw'r diacon ar ei draed yn awr, gwrandewch!

"Fy mrodyr, yr wyf yn teimlo mai cydymdeithwyr ydym ni oll, yn rhwym am y byd tragywyddol; yr ydwyf yn hyderu yn hollol ar haeddedigaethau Crist am Iechydwriaeth."

Ie, felly'n gymmwys! Ni wnaethai y tro iddo hyderu ar y ddau fesur hanner-bwsel yna.

Duell Dow.

COSPI ANIFEILIAID A PHRYFAID.

Ymhlith ysgrifeniadau Chassaneux, deddf-gynghorwr enwog o'r unfed ganrif ar bymtheg, y mae traethawd maith, yn yr hwn y mae'r prif bynciau gyda golwg ar gospi anifeiliaid yn cael eu trin. Ymgynghorwyd ag ef gan rai oedd yn bwriadu bod yn gyhuddwyr, ac yr oedd ei farn ef yn erbyn y cyhuddedig, yr hwn oedd yn fath o locust a elwyd yn yr hen French *hereburs*. Heb gyfeirio ymhellach, beth bynnag, at y profion ar un ochr na'r llall, tanysgrifiwn o'r tudalennau sydd o'n blaen ychydig o'r cospedigaethau y rhai a gymmerasant le mewn gwirionedd, ynghyd ag amser eu digwyddiad.

1451.—Ysgymmunwyd gelod gan Esgob Lausanne am ddistrywio pysgod.

1474.—Condemniwyd ceiliog i gael ei losgi gan gyfreithwyr Basle am ddodwy wŷ.

1474.—Dedfrydwyd hwch i gael ei tharo ar ei thalcen am fwytta gên plentyn i bant. Yr oedd y ddedryd hefyd yn gorchymmyn fod enawd yr hwch i gael ei dorri i fynu a'i daflu i'r cwn, a bod y perchennog ynghyd a'i wraig i wneuthur pererindod i Notre Dame de Pontoise, lle yr oedd yn rhaid iddynt roddi diolchgarwch ar ddydd y Pentecost. Daethant a *certificate* yn ol er dangos eu bod wedi gwneuthur hyn.

Gohebiaethau.

Barchedig Syr,—Goddefwch i'r ychydig ofyniadau canlynol gael lle yn eich Cyhoeddiad; nid ydynt yn gyfeiriedig ond i'r sawl y perthynant yn uniongyrchol iddo neu iddynt.

Yr eiddoch gyda pharch,
Tau Gimel.

I'r Erlidiwr.

1. Paham yr erlidiwch ni, syr?

2. Ai oblegid ein bod ni yn bobl heddychol a phawb—tangnefeddus yn ein plith ein hunain, ac yn ceisio cadw "*cydwybod ddirwystr* tuag at Dduw a dynion," heb ymyraeth â matterion nad ydynt yn perthyn i ni? Os felly, cofiwch am eiriau ein Iachawdwr, yr hwn yr ydym yn ei addef o galon, Mat. v. 11, 12, ie, "Felly yr erlidiasant y prophwydi fu o'ch blaen chwi." Ie, os gwyddoch gymaint â hynny, cofiwch am y 2000 o offeiriaid a droisant allan o'r Eglwys Esgobaidd (?) tua'r flwyddyn 1660, &c. Cofiwch am Llwynrhys ger Llangeithio, Llwynpiod wedi hynny, nid pell iawn o'r fan lle y trigwch chwi yn bresennol, yn eich anneddle gynnes, lle yr ydych yn llunio moddion eich herledigaeth mae'n debyg!

3. Paham yr ydych yn ein dirmygu?

4. Ai oblegyd nad oes gan y gweinidog ei *gannoedd* yn y flwyddyn, druan! a'i geffyl *ffansiol* a phob peth cyfleus iddo, fel gwr boneddig urddasol, nes bo pawb yn plygu iddo?

5. Ai oblegyd nad oes iddo cappel mawr ddigon i *gynnwys hanner y plwyf*, yn lle un tlws diaddurn, a hwnnw fyn-ychaf yn llawn, tra y byddai yr eglwys fawr heb fod y bedwaran rhan yn llawn, na thebyg i hynny ychwaith?

6. Ai oblegid nad oes gennom glychau Pabyddol, a gwisg sancteiddiol, ac ystumiau gosodedig—y cwbl yn awdurdodedig gan lywodraeth ein gwlad, &c.? Os felly, cyfeirier chwi at awdurdod uwch na llywodraeth gwladol,—at Frenin y brenhinoedd, Marc xii. 38. Nid oes gyda ni ddim o'r nodweddiadau hynny yn sicr, ac oblegid hynny yr ydym, syr, wedi darllen am danynt, yn eu gwrthod a'u cyffelyb, ac yr ydym mewn modd syml yn addoli yr un Duw ag oedd ein Harglwydd Iesu Grist yn ei addoli. Er mai rhai o'i frodyr lleiaf ydym ni, na ddirmygwch ni! Pe byddai gan bob un o honom ein cannoedd yn y flwyddyn, ni ddirmygasech ni—na wnaech yn wir, syr! Pe baem yn credu nad oes Un Duw yn y byd i gael ni ofalech am hynny; beth bynnag, tawech a son tra byddai gennom anhepgorion dyrchafol dynoliaeth, sef digon o arian ag aur ac urdd esgobawl. Ond fel Pedr gynt; arian ag aur nid oes gennom, a phe byddent, hoffem o egwyddor i roi llawer o honynt i wneuthur ein rhan i ddarostwng pob blinder ag sydd yn dirwasgu y tlawd a'r anghenus—Ydych chwi felly, syr?

7. Paham y difenwch ni, syr?

8. A ydym yn haeddu eich ysmotiad du chwi? Os felly, paham na ymddygech yn deilwng o'ch galwedigaeth fel yr hwn ag sydd a llawn awdurdod gennoch o'r Nef, fel yr haerwch, i alw eich hun yn olynydd yr apostolion, ac yn ganlynol yn weinidog cywir Iesu Grist? Ai trwy ddifrio y mae y ffordd i'n hennill? Darllenwch yn bwyllog, syr, Iago v. 3, ac hefyd Mat. v. 11. Edrychwch, syr, yn bwyllog pa fodd y mae pethau yn bod,—pa un ai gwynfyd i *chwi* am eich ymddygiad, ai gwae i ni. Os ydym mewn perygl o'r olaf, da chwithau arferwch ryw foddion lawer mwy agos at y "*suaviter in modo.*" Yn nes dippyn at yspryd y gwirionedd—yspryd Crist ei hunan;—nid yspryd y byd—yspryd erlidgar Jesuitaidd; y mae gormod o debygolrwydd i'r yspryd hynny wedi ei ddwyn i mewn i'n cymmydogaeth heddychol ni na welwyd o amser sefydliad ein cappel cyntaf, tua 70 mlynedd yn ol a rhagor, na ddymunem ni; ac ni fyddem yn gwybod dim am yr yspryd hynny, ond mewn hanesyddiaeth, oni buasai amgylchiadau crëedig gan ddyfais yspryd cyffelyb ymddangosodd ar lun dyn yn ein plith.

Yn olaf. Ai tybied yr ydych syr, y gorchfygwch ni? Dim yn wir, syr. Gwnaethoch hyd yma lawer o lês, diarwybod i chwi, yn siwr. Dau ddyblir mwyach ein diwydrwydd i ddangos i chwi ac eraill nad ydyw ein crefydd mor ddarfodedig a chicaion Jona, ond wedi ei hadeiladu ar broffes Pedr am Fab Duw; a

chan hynny nid oes arnaf nag arnom ofn na fydd yn gadarn, "*a phyrth uffern nis gorchfygant hi.*" Ymlaen a chwi, syr,—ymlaen awn ninnau.

TAU GIMEL, *Cribin.*

MR. GOL.,—Wrth ddarllen "Calvin a Servetus" yn yr YMOFYNYDD, nid rhyfedd fod fy nheimladau yn cynhyrfu mewn digllonedd wrth feddwl am ymddygiad creulon a barbaraidd y *monster* a'r *murderer Calvin*—y *chief instigator in the infernal tragedy.* Y mae geiriau un bywgraffydd i Servetus yn deilwng o le yn eich cyhoeddiad. Gosodaf hwynt i'lawr yn ei iaith ei hun.

"O BIGOTRY—thou *monster*, what hast thou done? To consign to the most cruel death in the prime of life, a person of character so irreproachable, of talents so rare, of attainments so extraordinary, who might have been so useful to mankind, merely for his opinions! Infernal deed—O CALVIN! what hast thou done? The voice of thy brother's blood crieth from the ground. But see, the *blessed martyr* is fallen in the midst of the fire—his sufferings are for ever terminated. We weep—we feel indignant at the conduct of CALVIN—and retire."

Ond odid byddai yn dda gan ereill heblaw fy hunan weled hanes Dr. Priestley yn yr YMOFYNYDD. Clywais fwy nag unwaith dros y pwlpud, "nad oedd y cythraul yn foddlon ar ddynion bach yn unig; ond yr oedd yn rhaid iddo gael dyn *mawr* fel Dr. Priestley i'w fyddin." Gan obeithio y gwna un o'ch gohebwyr galluog gydsynio â'r deisyfiad, y gorphwys, Yr eiddoch, &c.,

LEVI DAVIES.

Aberteifi, Meh. 17, 1860.

MR. GOL.,—A fyddwch chwi cyn ddäed a gadael i'r gofyniadau canlynol ymddangos yn eich Misolyn? Mae lle genyf i ddysgwyl atebiad iddynt oddiwrth ryw un o'ch gohebwyr, naill ai Calfinaidd neu Arminaidd.

1. Os, fel y mae barn y cyffredin, taw yn *fewnol* (hyny yw, nid trwy y gweled a'r clywed ac argyhoeddiad y deall) y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu er gadwedigaeth pechadur,—pa fodd y gwneir â diwedd adn. 33 o'r ail benod yn Llyfr Actau yr Apostolion? "Ac wedi iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed."

2. Pa beth a ddeallir wrth y geiriau yn adn. 37, "Hwythau, wedi clywed hyn, a *ddwysbigwyd yn eu calon?*" Os gwir edifeirwch ydoedd y dwysbigiad, paham mae Pedr wedi'n, yn adn. 38, yn gorchymyn iddynt i edifarhau"?

3. Os, fel y mae barn y cyffredin, taw edifeirwch i fywyd ydoedd dwysbigiad y troedigion hyn, a hyny hefyd o waith yr Ysbryd Glân, er eu cadwedigaeth,—pa fodd mae cyssoni hyny â bod Pedr wedi'n yn gorchymyn i bob un o honynt i "edifarhau a'u bedyddio, &c., *er maddeuant pechodau,*" &c.?

Ychydig oleuni ar y pynciau uchod a rydd foddlonrwydd i lawer heblaw—

Yr eiddoch,

Llangeler. CRYDD Y LLETY.

Ar Lythyr J. F., Cwmavon; a'r cymhwysder o ni dderbyn fod Duw "yn tafu pechodau dynion tu ôl i'w gefn.

Derbyniasom lythyr oddiwrth ohebydd parchus yn beio ar lythyr J. F. yn ein rhifyn diweddaf, am ei fod mewn ffordd anweddaidd o fychanol fel yn beio ar y Doctor am ddefnyddio y geiriau uchod wrth lefaru uwchben y bobl, pan y mae'r geiriau mewn cwestiwn i'w cael mewn adnod o'r Hen Destament, sef Esay xxxviii. 17. Dywed ein gohebydd hefyd "nas gellir yn gyfiawn gyhuddo y Doctor o ddim yn anghyson a'i enw clodfawr tra y mae yn arfer iaith yr Ysgrythyr." Am hyn y mae yn rhydd i'n gohebydd a'r Doctor (fel hefyd i'n darllenwyr) i farnu drostynt eu hunain. Ac y mae tudalenau yr YMOFYNYDD yn agored iddynt i amlygu ac amddiffyn eu golygiadau ynghylch y peth. Pa fodd bynag nid ydys wedi cyhuddo J. F. o'i fod wedi camddarlunio y bregeth. Ac yr y'm yn sicr nad ydoedd yn amcanu rhoddi un tramgwydd i'r Pregethwr yn bersonol, ac nas gwyddai ragor am dano na'i fod yn cael ei alw yn Ddoctor. Felly, barnwn fod J. F. ei hun yn rhydd; ei gwestiwn yn unig sydd yn arcs heb ei atteb. Ac wrth gyhoeddi llythyr J. F. (fel y mae ein gohebydd yn gwybod yn dda) nis gwyddem pwy ydoedd y Doctor a draddododd y bregeth. Ac felly gobeithiwn y rhyddhair ni o unrhyw fwriad i roddi tramgwydd personol. Ond serch yr adnod gyfeiriedig o'r hen Destament, nis gallwn lai nag ystyried ei fod yn anghymwys i bregethwyr efengyl Crist ddywedyd uwchben eu gwrandawyr fod "Duw yn tafu pechodau dynion tu ôl i'w gefn." Ond rhydd i bob meddwl ei farn.—GOL.

Sanesion Sarfrifol a Thramor.

Y Senedd.—Mae y Weinyddiaeth, ar y cyfan, yn cael myned ymlaen â matterion y Wladwriaeth heb nemawr o wrthwynebiad pleidiol; ond er gochelyd peryglon tymestl, y maent wedi gweled yn gymmwys i dalu rhai o'u mesurau dros y bwrdd. Rhai cynnygiadau o bwys, modd bynag, wedi passio Ty y Cyffredin, a naccawyd gan Dy yr Arglwyddi. Pa un ai ydyw yr Arglwyddi yn hyn wedi ymddwyn yn ddoeth, neu bod eu gwaith yn ymyraeth â threfniad y trethi, yn gwbl gyfreithlon, sydd yr hyn lleiaf yn bur amheus. Mae y Committee a appwyntiwyd gan Dy y Cyffredin i chwilio am enghreifftiau blaenorol (*precedents*) wedi dwyn i mewn eu *report*. Yn eu hadroddiad nid ydynt wedi gwneyd rhagor na nodi rhyw ychydig enghreifftiau o'r cyffelyb amgylchiad, y rhai y daethant o hyd iddynt yn nghwrs yr ymchwiliad yn hanesiaeth ein Senedd, gan adael i'r Ty, os gwelir yn gymmwys, i ddyfod i benderfyniad ynghylch cyfreithlondeb y matter.

Cofrifiad y flwyddyn ddyfodol.—Y mae llawer, ond odid, yn awr yn ddarllenwyr yr Ymofynydd, nad oeddent wedi cyrhaedd oedran darllen a meddwl drostynt eu hunain ar y cyfnod pan wnaethpwyd y *census* neu y cofrifiad diweddaf—yn 1851. Dichon nas byddai yn anfuddiol nac yn annerbyniol i'r cyfryw i ni nodi yma ei bod yn drefn er ys cryn lawer o flynyddoedd bellach gyda'r llywodraeth i wneuthur cyfrifiad o boblogaeth y wlad unwaith bob deng mlynedd; a chofnodi *nifer* trigolion Prydain Fawr ar y pryd, ynghyda'r gwahanol oedran, rhyw, galwedigaeth, cyflwr, &c., y perthynai bob un iddo. Gelwir ar bob penteulu i roddi cyfrif, mewn ysgrifen, am bob un o'r pethau hyn, mewn perthynas i bawb a ddigwyddo fod yn trigo dan ei gronglwyd ar y noswaith bennodedig gan y llywodraeth, ac i ddychwelyd y cyfrifiad yma i ddwylaw y swyddog appwyntiedig. Ac ar ol cydnaru y dychweliadau bydd y llywodraeth yn cyhoeddi llyfr yn gosod allan, mewn trefn, ansawdd y wladwriaeth yn y gwahanol dosparthiadau. Y tro diweddaf, yn 1851, ceisiwyd hefyd ddyfod at rifedi y bobl a berthynent i bob un o'r pleidiau crefyddol; a chyda'r amcan hyn, ar *Ddydd Sul y Census*, yn ddiarwybod i bawb ond y swyddogion appwyntiedig i'r gorchwyl, cymmerwyd cyfrif o nifer y bobl ag oeddent yn bresennol ar y dydd hwnw, yn mhob ty cwrdd ac eglwys trwy y deyrnas. Yn mhen amser cyhoeddwyd adroddiad awdurdodol yn rhoddi swm y dychweliadau a nodwyd; ac wrth hyny, cafwyd allan fod yr Ymneillduwyr yn llawer amlach mewn rhifedi na'r eglwyswyr! Fel y gallesid disgwyl, nid oedd hyn o gasgliad yn flasus i'r penaethiaid na'r rhai a fynant fod yr eglwys i gael y flaenoriaeth yn mhob peth. Achwynent fod y drefn yn 1851 yn annheg tuag at yr eglwys. Gwaeddent am gael trefn o well, ac ail dreial yn y *census* a fydd i'w wneuthur y flwyddyn nesaf. Ac yn awr ymddengys fod eu *cri* wedi effeithio ar y Weinyddiaeth. Yn yr Ysgrif y maent ar ddwyn i mewn er trefnu y cofrifiad yn 1861, bwriadir gosod ar bob penteulu i ddychwelyd i'r swyddog, mewn ysgrifen, nid yn unig ei broffes ei hun o'i syniadau crefyddol, ond proffes grefyddol pob un a fyddo mewn oedran ag a ddigwydd fod yn trigo dan ei gronglwyd ar y noswaith a benodir. Yn erbyn hyn o drefn mae yr Ymneillduwyr wedi neu yn gwrthdystio, fel un gwr. Ond y mae Arglwydd Palmerston wedi cydsynio a chais yr Eglwyswyr i addaw peidio rhoddi clust i wrthdystiad yr Ymneillduwyr yn y peth yma:—ei fod ef yn meddwl ei hun nad ydyw ond peth teg a chymmwys i bob dyn wneyd proffes onest o'i syniadau crefyddol. Nid oes neb yn meddwl fod Arglwydd Palmerston yn gofalu llawer am argyhoeddiadau crefyddol, yn fwy na Gallio gynt; ond y mae yr Ymneillduwyr gobeithiwn yn deall eu hegwyddorion yn well nag i ddangos eu bod yn ddiofal ynghylch y pwysigrwydd o fod pob proffesiad o grefydd yn wirfoddol a chydwybodol. Un peth yw proffesu ein golygiadau crefyddol yn onest a diofn, mewn ufudd-dod i'n cydwybodau ac i Dduw'r gwirionedd; peth arall yw cydnabod awdurdod neu hawl unrhyw lywodraeth ddaearol i ofyn am gyffes

ffydd oddiwrthym. "Rhodder eiddo Cæsar i Cæsar; ond eiddo Duw i Dduw. Diau y dichon y Weinyddiaeth, os ewyllysiant, gyflawni eu hamcan trwy help y *Tories* a'r Eglwyswyr; ond edrychent hwy at y canlyniad. Gobeithiwn, modd bynag, y bydd iddynt gael eu dwyn i bwyllo mewn pryd ac i ymattal rhag cynnyg y fath ergyd at egwyddorion sylfaenol ein rhyddid gwladol a chrefyddol. Yn ngwyneb y cyfnewidiadau sydd yn cymmeryd lle yn barhaus, nid yw o fawr bwys pa enwad crefyddol fyddo yn cynnwys y rhifedi mwyaf o bleidwyr ar y pryd; ond y mae o'r pwys mwyaf i ddal crefydd i fynu yn ei hannibyniaeth a'i phurdeb nefol.

Y Reform Bill wedi ei dynu yn ol.—Druan o'r ysgrif er diwygio y gynrychiolaeth, a ddygwyd i mewn rai misoedd yn ol gan Arglwydd J. Russell! Wedi yr holl amser gwerthfawr a dreuliwyd a'r holl areithiau a draddodwyd dros ac yn erbyn y cynnygiad,—ar ol y cwbl mae yr ysgrif wedi cael ei thynu yn ol—a hyny o herwydd yr oediad a achoswyd gan y rhwystrau a deflid ar ei ffordd gan y blaid wrthwynebol; ac o herwydd fod y tymmor wedi myned mor bell, fel nad oedd yn gyfleus, os yn bosibl, bellach, i bassio'r *Bill* yn yr eisteddfod bresennol. Ac yn hyn o beth dywed rhai fod Arglwydd J. Russell wedi cael ei dalu yn ei ddwrn am ei ymddygiad pleidgarol, yn ei waith yn gwrthod *Bill* lled dda a gynnygid y llynedd gan blaid Iarll Derby. Ond yn ein golwg ni, rhaid addef fod *Bill* Arg. J. yn well *Bill* ac yn gynnygiad er gwelliant, ac yn dda mor belled ag yr oedd yn myned. Haeddasai well tynged. Ond yn rhywfodd, methodd ag ennill serch gwresog pobl y wlad—ac nid oedd ein Seneddwyr yn awyddus am gael etholiad newydd ar frys—a dygwyd y cynnygiad i mewn ar amser anffortunus iddo, pan nad oedd neb braidd yn galw yn uchel am dano.

Y Dreth Eglwys.—Gwrthodwyd Ysgrif y Llwyr Ddilead, fel yr oeddid yn ei ddysgwyl, gan Dy yr Arglwyddi. Ond serch hyny y mae yn amlwg fod tynged y Dreth, yn ei dull bresennol, wedi ei benderfynu. Y mae tôn yr Arglwyddi, wrth lefaru ar y pwnc, wedi cyfnewid yn fawr. Dywedodd Iarll Derby ar yr achlysur ei fod ef a'i blaid wedi myned haner y ffordd i gwrdd â gwrthwynebwyr y Dreth; nad oedd arno ef ddim cywilydd i addef hyny; eu bod hwy, nid oberwydd cyfiawnder y peth, ond *er mwyn heddwch*, yn foddlon bellach i ryddhau Ymneilldwyr neu y rhai ni ewyllysiant dalu'r Dreth, oddiwrth y rhwymedigaeth i hyny; ond eu bod yn dymuno cael y gyfraith yn fwy caeth nag y mae yn bresennol, er mwyn rhwymo eglwyswyr (hyny yw y rhai ydynt yn foddlon) i dalu yr hyn fyddo yn angenrheidiol tuag at gadw i fynu adeiladau a gwasanaeth yr eglwys—yr hyn addefiad nid yw yn rhoddi llawer o ganmoliaeth i eglwyswyr, nac yn rheswm da ychwaith dros barhau i wrthwynebu llwyr ddilead y Dreth.

Adolygiad y Milwyr Gwirfoddol.—Cynaliwyd adolygiad (*review*) mawreddog ar y milwyr gwirfoddol (*volunteers*) dydd Sadwrn y 23ain o Fehefin, yn Hyde Park, Lundain. Yr oedd dros ddeunaw mil o *Rifles* a *Volunteers* eraill wedi dyfod ynghyd gyda rhwysg milwraidd—oll dan arfau, ac yn drefnus, fel wedi eu parotoi i ryfel. Dywedir fod yr olygfa yn ardderchog dros ben; a rhifedi yr edrychwyr dros ben cyfrif; a'u brwdfrydedd o'r dechreu i'r diwedd yn anferthol. Yr oedd y Frenines a'i Hewythr, Brenin Belgium, ynghyda'r rhan fwyaf o'r teulu Brenhinol, yn wyddfodol. Ni welwyd gyffelyb olygfa yn Llundain oddiar y flwyddyn 1803, pan ddarfu Sior III, gyda'i feibion adolygu *Volunteers* y cyfnod hwnw, pan yr oedd cwarter miliwn o'r bobl wedi dysgu trin arfau er mwyn amddiffyn eu gwlad. Y pryd hyny yr oedd Napoleon a byddin fawr o'r Ffrancod yn gorwedd yn Boulogne, yn barod i gymmeryd y cyfleustra cyntaf i groesi'r mor ac i ymruthro ar Brydain. Ond ar y pryd hwn yr ydym mewn heddwch a Ffrainc ac â holl deyrnasoedd Ewrop. Duw wnelo iddi barhau i fod felly. Mae y Frenhines wedi tystio y mawr foddlonrwydd a gafodd wrth weled yr olygfa yn Hyde Park, a'i diolchgarwch i'r *Volunteers* am eu parodrwydd a'u sel a'u ffyddlondeb.

Y Cyfandir.—Y mae sefyllfa pethau ar y Cyfandir yn parhau i fod yn bur ansefydlog; yr hyn sydd wedi ac yn gwneud niwed mawr i fasnach. Mae y traethod-

au poblogaidd gan M. About ac eraill, y rhai a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Paris,—nid yn ddiarwybod i'r llywodraeth—fel mae lle i ofni wedi bod yn effeithiol er drwg yn hyn o beth. Pa un ai yn fwriadol ai peidio, mae'r duedd yn amlwg—sef pigo cynhen, creu drwgdybiaeth, a magu cenfigen, os nid gelyniaeth, rhwng Ffrainc a Lloegr yn enwedig.

Bu cyfarfod o'r penau coronog yn Baden Baden y mis diweddaf. Dymunai yr Ymherawdwr Napoleon ymddiddan â Thywysog Llywodraethol Prwssia. Ei amcan, dywedid, ydoedd sicrhau iddo ef ac eraill o Dywysogion Germany, fod ei ddymuniadau a'i fwriadau ef tuag attynt, yn gwbl heddychol—am iddynt beidio drwgdybied a chymeryd ofn. Dywed y traethodau hefyd fod Prydain Fawr, yn ei pharotoadau, &c., yn dangos drwgdybiaeth yn gwbl ddiachos, ac yn ymddangos fel pe bai am bigo cynhen; ac os yr â ymlaen yn y modd hyn mai y diwedd fydd ymrafael mewn gwirionedd. Y gallai L. Napoleon, pe mynai, dirio a'i fyddin yn Lloegr yn ddiofn; ac wedi cael Llundain i'w feddiant am ddim ond tri diwrnod, y gallai ddychwelyd adref yn fuddugoliaethus ac yn drwm-llwythog. O'r tu arall, mae y fath siarad yn effeithio yn niweidiol ar y Brytaniaid—yn achosi cyfodi *Rifle Corps* trwy'r wlad, a darparu amddiffynfaoedd, er mawr niwed i heddwch a masnach yn gyffredinol.

Sicily a Naples.—Wrth bob hanes y mae Garibaldi yn myned ymlaen â'i amcanion yn bur llwyddianus, ac yn llywodraethu ei fyddin a'r Siciliaid gyda phwyll ac uniondeb. Nid ydym wedi clywed hyd yn hyn ei fod wedi ymosod ar amddiffynfa Messina. Ond y mae Brenin Naples, ar ol ei holl orthrwm a chreulonder, ac ar ol ymbil yn ofer am help oddiwrth Frenhinoedd eraill, o'r diwedd wedi troi yn edifeiriol. Mae ganddo le i ofni fod ei edifeirwch wedi dyfod yn rhy ddiweddar—ei fod fel edifeirwch gwely angau—nas caiff gyfleusdra i brofi ei fod yn edifeirwch gwirioneddol. Pa fodd bynag, y mae wedi newid ei weinyddiaeth—*hoisto y Tricolor*—addaw y *Constitution* a chyfreithiau rhydd—ac hysbysu ei ddymuniad i lywyddiaethu, yn Italy mewn undeb a Brenin Sardinia.

China.—Tua dechreu'r mis diweddaf daeth y newydd fod y Chineaid wedi ymostwng i ymbil am ammodau heddwch; ond trodd i maes fod y newydd yn ddisail. Rhaid i John Chinaman, mae yn debyg, brofi metel byddin a llynges unedig Ffrainc a Lloegr. Bu y ddau *Ambassador*, Arglwydd Elgin a Baron Gros yn agos colli eu bywydau trwy longddrylliad y Malabar yn agos i Port de Galle yn y Môr Indiaidd. Collwyd eu papyrau ynghyda'r holl aur ac arian ag oedd ganddynt.

MARWOLAETH

Bu farw ar y 5ed yn nghryfder ei fywyd, Mr. Thomas Thomas, Maeslwyd, ger Cribin, Ceredigion, gan adael perthynasau a chyfeillion lawer i alaru ar ei ol. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys y Cribin; ac yr oedd yn addurno ei grefydd yn ei fawl i Dduw fel cantwr medrus gyda'r côr; ac yn ei ymddygiad hynaws a thangnefeddus yn esiampl i'r byd.

T. G.

"Nid oes un dylanwad yn y bydysawd yn ymddangos i ni mor ogoneddus a'r dylanwad ar yr ymarweddiad: nac un waredigaeth mor deilwng o ddiolchgarwch, ag adferiad yr enaid i burdeb. Heb hyn, byddai maddeuant, pe byddai bosibl, o ychydig werth. Paham y tynner y pechadur o uffern, os gadawer uffern i losgi yn ei fynwes ei hun? Paham y cyfodir ef i'r nefoedd, os yw efe yn estron i sanctaiddrwydd a chariad y nefoedd?"

Channing.

DUWDOD CRIST.

Maent yn siarad am *anian* a *sylwedd* mor ffraeth,
Duw naill ai wnaeth Iesu neu ynteu ni wnaeth;
Os gwnaeth, mae'n greadur, mae'n glir i bob rhai,
Os na, mae'n Dduw, yna mae genym ni ddau.

Cyfd. *Telor* o *Baron Masseres.*

Y mae ol troed y dyn gwyllt (*savage*) yn ddigon i dystiolaethu presennoldeb dyn i'r *atheist*, yr hwn ni chanfydda Dduw yr hwn sydd a'i law yn ysgrifenedig ar yr holl fydysawd.—Hugh Miller.

Barddoniaeth.

UNDEB TEULUAIDD.

(Cyfieithiad o "Family Union" Wordsworth.)

CYFARFUM, unwaith, eneth dlos
Oedd, meddai'n wyth mlwydd oed;—
Ei gwallt modrwyawg daenai dros
Ei gruddiau teca' 'rioed.

Ei threm, ei mhoes, a'i gwisg, o'ent lawn
O arddull symla'r wlad;
Ei llygaid bywiog—prydferth iawn,
Weinyddent im' fwynhad.

Gofynwn—"Pa sawl brawd a chwaer,
Fy morwyn fach, y'ch chwi?"
Atebai im', dan sylwi'n daer
Mewn syndod, "Saith y'm ni."

"Pa le maent oll, fy ngeneth syw?"—
"Saith ydym," meddai'n glau,
"Dau sydd yn Llundain bell yn byw,
Ac ar y môr mae dau;—

"A brawd a chwaer sy wrth y llan,
Yn gorwedd tan yr Yw;
Ac yn Nhy'r fynwent—dyna'r fan,
Mae mam a minneu'n byw."

"Yn Llundain, dau sydd fyw ac iach
A dau sy'n forwyr da.
A thitheu'n saith? fy morwyn fach,
Y d'ryswch eglurha.

Atebai'r fechan deg ei gwedd,
"Syr, saith o blant y'm ni;—
A dau sy'n gorwedd yn y bedd
O dan yr Ywen ddu."

"Tydi a redi gylch y llan
A bywiog gamrau hyf;
Ac os oes dau'n eu bedd, o dan
Yr Ywen, pump yw'ch rhif."

"Eu beddau gwyrdd, o ddrws fy mam,"
Atebai'r deg ei gwawr,
"O bellaf, nid y'nt ddeuddeg cam;—
Cyfochrog y'nt ar lawr.

"Fy hosan weuaf—gwniaf hem
Fy neisiad, yno'r âf;
Eisteddaf ar y borfa werdd,
A chanu iddynt wnaf.

"A phan yr haul, wrth fachlud draw,
Ar gopa'r bryn dywyno,
A'm llwy a'm cwpan yn fy llaw,
Bwytaf fy swper yno.

"Bu farw Sian yn gyntaf un:
Cwynfanai'n wael ddi-hoen,
Nes galwai Duw hi ato'i hun,
O'i phenyd trwm a'i phoen.

Ac yn y fynwent draw, mewn hedd,
I orwedd dodwyd hi;
Trwy'r haf, cyd-chwarae gylch ei bedd,
Wnai John fy mrawd a mi.

"Ond pan ai'r tir gan eira'n wyn,
A minneu'n iach fy ngwawr,
Bu raid i 'mrawd ymado'n llyn,—
Maent ochr yn ochr yn awr."

"Pa nifer, felly," holwn i,
"Tra dau'n y beddrod llaith?"
Ond etto'r un ei hateb hi,—
"Yr ydym oll yn saith!

"Ond fe aeth dau o honoch chwi
I'r Nef—i ben eu taith?"—
Ofered ymresymwn i!
Ni wyrai dim ei syniad hi,
Can's honai "'R'ym yn saith!"

D. L. MOSES.

Brynamman, Mai 16, 1860.

EMYN MEWN AFIECHYD.

(O'r Seren Gomer, Gorph. 1832.*)*

Os rhaid im' dreulio dyddiau f'oes,
A'm bron yn glaf dan lawer loes,
Boddloni 'rwyf ond im' gael byw
Yn ol rheolau deddfau Duw.

'RWYF hyd fy medd mewn hedd o hyd,
Dan orthrymderau beichiau byd;
Trwy gystudd llym, a mawr y lles
Fy nwyn a gaf at Naf yn nes.

Yr Arglwydd Ior, mewn cariad pûr,
A wrendy 'nghwyn o dan fy nghur;
Gan droi fy haint er maint fy mhoen
Yn orfoleddus hwylus hoen.

Nid wyf i aros yma'n hir,
'Rwy'n mynych gael arwyddion gwir
Fod angau'n brysio ddydd ac awr
I ddryllio'r babell wan i lawr.

Mi gana'n iach a hynny'n glau
I holl deganau'r ddaear frau:
Dir byddaf fi, ar fyr o dro
A'm hannedd mewn trag'wyddol fro.

Yng nghadw im' mae gwobrwy gwir
Yn ol y daith a'r anial dir;
Caf wlad a choron gyda Christ
Yn dâl am bob ochenaid drist.

Caf ganu byth mewn acen ber
Am nefol ras yn ninas ner;
Caf yfed bywiol siriol sudd
Heb glwy' na braw na chalon brudd.

REUBEN BRYDYDD Y COED.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.